# SAITH O FARWNADAU

AM YR ENWOGION CANLYNOL:

Y PARCH. GRIFFITH JONES, LLANDDOWROR;
Y PARCH. GEORGE WHITFIELD;
Y PARCH. DANIEL ROWLANDS, LLANGEITHO;
Y PARCH. LEWIS LEWIS; Y PARCH. H. DAVIES, PENFRO;
Y PARCH. WILLIAM DAVIES, CASTELLNEDD;
MRS. GRACE PRICE, WATFORD.

**GAN Y PARCH. WILLIAM WILLIAMS,**
PANTYCELYN.

ABERTAWY:
ARGRAFFWYD GAN, J. ROSSER A D. WILLIAMS, HEOL FAWR.
1854.

Google

Digitized by Google

# AT Y CYMRY.

ANWYL GYFEILLION,

Meddyliwn, hyd yn ddiweddar, fyned yn mlaen gyda chyhoeddi gweithiau awdurol pêr-ganiedydd Pantycelyn nes gorphen y cwbl; ond gan fod cymaint o alw am argraffiad newydd o'r Marwnadau a gyfansoddodd, meddyliais mai gwell fuasai ymgymeryd â hyny yn gyntaf, cyn myned yn mhellach.

Gan deimlo yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gefais bellach er ys blynyddoedd, hyderaf y bydd y derbyniad o'r Marwnadau yn eu diwyg presenol yn llawn gyfleted â'r troion o'r blaen, ac yn gyfatebol i'r hyn a ddysgwylir, yn ol yr ymholi mawr sydd yn eu cylch. Gŵyr pawb sydd yn gyfarwydd â gweithiau yr Awdwr Parchedig, fod llawn cymaint o'i ystwythder—ei ehediadau barddonol, ac o'i ardderchawgrwydd meddyliol ef ei hun yn y rhanau hyn o honynt â dim a gyfansoddodd. Mae yma megys yn ei elfen, mewn cyflawn fwynhad o drwydded y beirdd, yn ymbleseru yn eangderau awyrgylch yr awen, ac yn chwareu ei dânau melusion am ogoniant nefol fyd, nes y byddo yn rhaid fod calon y darllenydd wedi ei chadwyno a'i chlymu wrth y ddaear mewn dideimladrwydd marwhaol, cyn y gallo lai na theimlo ei hun dan ddylanwadau "yr hen WILLIAMS"

Google

yn ymgomio ag ysbrydoedd y rhai a ymadawsant oddi-yma yn yr Arglwydd, yn barod i ddweyd—

"Mae fy ysbryd yn cartrefu gyda'r dorf aneirif fawr,
O rai cyntaf-anedigion ag sydd yn y nef yn awr."

Ceir yma bortreiad o'r Bardd yn ei gyflawn faintioli, ac o'r gwroniaid cywir hyny ag y cana am danynt, y rhai a fuant yn offerynol i ysgwyd a dihuno Cymru drwyddi oll, a rhanau helaeth o Loegr, Scotland, Iwerddon, ac America, yn nghyda gwledydd eraill; fel y bydd yn hawdd i'r oesoedd a ddelo ar ol i ddeall pa fath rai oeddynt, ac y teimlont fel y ddau ddysgybl hyny gynt oedd yn myned tuag Emmaus, a'u calonau yn llosgi o gariad atynt, ac awydd bod yn debyg iddynt.

Mae'r oll o'r Marwnadau uchod, oddeutu pymtheg ar ugain o nifer, pa rai a fwriadwyf, "os yr Arglwydd a'i myn," eu dwyn allan yn rhanau cyffelyb i hon nes eu gorphen. Gwn na siomir neb o'r derbynwyr, os byddant yn berchen chwaeth a theimlad. Gan ddymuno bendithion fyrdd ar y darlleniad o honynt, a gobeithio na bydd y Cyhoeddwr ddim ar ei golled, y gorphwysa,

Yr eiddoch yn ddiffuant,

DAVID MORRIS.

*Capel Hendre, Mehefin*, 1854.

Google

# Y PARCH. GRIFFITH JONES,

LLANDDOWROR, SWYDD GAERFYRDDIN,

*Yr hwn a fu farw ar yr 8fed o Ebrill,* 1761, *yn 78ain mlwydd oed, pump a deugain o ba rai a dreuliodd yn y weinidogaeth.*

---

Gymru, deffro! gwisg alarnad,
  Tywallt ddagrau yn ddioed!
Mae dy golled lawer rhagor
  Na feddyliaist eto 'i bod;
Cwympodd seren oleu hyfryd,
  Hynod yn mhlith ser y ne',
Nes i'r lleill o'r ser i synu,
  Ac mae t'wyllwch yn ei lle!

Hon ei hunan a ddysgleiriodd,
  Pan oedd tew gymylau'r hwyr
Wedi hedeg dros ardaloedd,
  A dyfetha goleu'n llwyr;
Gweinidogion bron yn gyson
  Oedd yn ei haner nos o hûn,
Bloedd ei udgorn ddaeth yn union,
  Ac fe'i clywodd ambell un.

Allan 'r aeth yn llawn o ddoniau,
  I bregethu'r 'fengyl wir,
Ac i daenu'r iachawdwriaeth
  Oleu, helaeth, 'r hyd y tir;
Myrdd yn cludo idd ei wrandaw,
  Llenwi'r llanau mawr yn llawn,
Gwneyd eglwysydd o'r monwentydd,
  Cyn ei glywed ef yn iawn!

Fe ga'dd Scotland oer ei wrandaw,
  Draw yn eitha'r gogledd dir,
Yn dadseinio maes yn uchel
  Byncinu'r iachawdwriaeth bur;



Google

Ca'dd myrddiynau deimlo geiriau
    Hedd, o'i enau'n llawer man,
Clywodd hithau rym ei ddoniau,
    Freiniol ardderchocaf ANNE.

Dacw'r Biblau teg a hyfryd,
    Ddeg ar hugain filoedd llawn,
Wedi 'u trefnu i ddo'd allan,
    Trwy ei ddwylaw 'n rhyfedd iawn;
Dau argraffiad, glân ddiwygiad,
    Llawn ac uchel bris i'r gwan;
Mewn eabanau fe geir Biblau
    'Nawr gan dlodion yn mhob man.

Hi ragluniaeth ddyrys, helaeth,
    Wna bob peth yn gydsain lawn:
D'wed nad gwiw argraffu Biblau
    Heb eu darllen hwy yn iawn;
Daeth yn union ag ysgolion,
    O 'Werddon fôr i Hafren draw:
Rhwng y defaid mae'r bugeiliaid,
    'Nawr â'r 'sgrythyr yn eu llaw.

Tair o filoedd o ysgolion
    Gawd yn Nghymru faith a mwy,
Chwech ugain mil o ysgoleigion
    Fu a rhagor ynddynt hwy;
Y goleuni ga'dd ei enyn
    O Rheidol wyllt i Hafren hir,
Tros Bimlimon faith yn union
    T'wynodd ar y gogledd dir.

Os yw Cymru'n gylch o bobtu
    Yn chwe chan milltir faith o dir,
Ac o'i mewn rhyw fil o blwyfau,
    Lle bu t'wyllwch dudew'n hir;
Braidd ca'dd plwyf nac ardal ddianc
    Heb gael iddo gynyg rhad,
O fanteision ddysgai'n union
    Iddynt ddarllen iaith eu gwlad.

Cryf a chadarn fu'r elyniaeth
    Ydoedd yn y gogledd dir,

Google

I bob moddion a f'ai'n ffyddlawn
  I ledaenu'r 'fengyl bur;
Eto fe wnaed ffordd i ddysgu,
  Lle'r oedd dig a llid yn llawn,
Eirth cynddeiriog, call lwynogod,
  Ddaeth fel wyn yn wirion iawn.

Dyma'r gwr a dorodd allan,
  Ronyn bach cyn tori'r wawr,
Had fe hauodd, fe eginodd,
  Fe ddaeth yn gynhauaf mawr;
Daeth o'i ol fedelwyr lawer,
  Braf mor ffrwythlawn y mae'r ŷd!
'Nawr mae'r wyntell gref a'r gogr
  Yn ei nithio 'r hyd y byd.

Gorfoledda, ddedwydd Gymru,
  Braf yw'r breintiau ddaeth i'th ran,
Trugareddau erioed na feddwyd
  Yn Borneo na Japan;
Meddu Biblau, dysg i'w darllain,
  A phregethu'r iachol ras;
Yn Llanddowror gyntaf torodd
  Y goleuni hwn i ma's.

Hen bererin, dywed bellach,
  (Mawr yr awrhon yw dy ddysg)
Fath ysbrydoedd heirdd yw rhei'ny
  Wyt yn trigo yn eu mysg;
Pa fath olwg wael ddisylwedd,
  Genyt sydd oddiyna 'nawr,
Ar y myrdd droiadau gweigion
  Wyt yn ganfod ar y llawr?

Nis gall natur, gwnaed a fyno,
  Wneuthur un o'th fath is nen,
Gras yn unig, nid dim arall,
  Ddaw a'n colled ni i ben;
Mae dy le di'n wag hyd heddyw,
  Yn nghadeiriau'r eglwys fawr,
Y mae'n gweddi, pe b'ai'n bosib',
  Eto am dy gael di 'lawr.

Google

Byth y cofir am dy enw,
   Tra llythyren fo mewn bod,
Bydd dy ysgolion, bydd dy lyfrau,
   Byth yn dwyn i'th enw glod;
Nid rhaid careg ar dy feddrod,
   Nid mewn marbl bydd dy lun,
Ond mewn 'sgrifeniadau santaidd,
   Ac ar enaid llawer dyn.

Fe 'sgrifenaist o blaid gweddi
   Fe 'sgrifenaist o blaid dysg,
Fe ddystewaist, drwy'th ddoethineb,
   Fleiddiaid rheibus yn ein mysg;
Tra yn gorwedd yn y beddrod,
   Fe addfeda'r meusydd ŷd,
Ac fe gesglir dy gynhauaf,
   Erbyn delo'th lwch yn nghyd.

Os daw un o gant a ddysgwyd
   Genyt ti o bryd i bryd,
Braf fath luaws fydd dy lafur
   Pan y do'nt yn gryno yn nghyd;
Uwch eu cyfrif yw'th weithredoedd,
   O na argreffid hwynt yn rhes,
Er esiampl i rai eraill,
   Ar ryw golofn fawr o bres.

Tyr'd, fy enaid, deffro, f'awen,
   I fyñu mewn goleuni pur,
Son am gyfiwr bardd yr enaid,
   Wedi gado'r anial dir;
Gad bob ysbryd trist alaethus,
   Blin gystuddiau, a gwres y dydd,
Cân i'r rhai yn mhlith seraphiaid,
   Syddyngorphwysheddyw'nrhydd.

Mae'r angelion sydd yn gwylio
   Tros ynysoedd Prydain Fawr,
Wedi 'i weled ef yn *pasio*,
   'N ddysglaer heibio'r dwyrain fawr;
F'enaid, dylyn ol ei edyn,
   I derfynau'r santaidd dir,

Google

Gwrandaw filoedd yn ei roesaw,
  Yno i'r goleuni pur.

Pan y gwelwyd ef yn codi,
  Hyfryd 'r aeth y swn i ma's,
Rhwng cerubiaid sydd yn tramwy
  Gylch oddeutu'r wybr las;
"Un o'i garchar a ddiangodd,
  Acw o flaen y faine yn awr,
Ac yn derbyn gwisg a choron
  Addas, gan y Brenin mawr."

"'Roeddem acw," ebe Uriel,
  Angel cadarn, "yn y fan
Ni ganasom ganiad newydd,
  Pan y daeth e' gynta'r lan,
Pan y cafodd wisgoedd euraidd,
  Pan y cafodd delyn lân,
Ni bu mwy llawenydd, groesaw,
  I un Cymro 'rioed o'r bla'n!"

Mae fy ysbryd am ehedeg
  Ato 'r awrhon fyna fry,
Ac am *ffeindio* 'i drigfan hyfryd,
  Yno heddyw yn mhlith y llu:
Pwy yw ei gyfeillion penaf,
  Yn mha gwr o'r nefoedd faith,
P'un ai adrodd gorthrymderau,
  Ynte cânu, yw ei waith ?

Wel, mynega di, fy awen,
  Sydd yn chwilio pethau 'ma's,
Ac na ddianc rhag dy amcan,
  Ddim o dan yr wybr las ;
Tan bwy gainc o bren y bywyd
  Mae ef yno'n eistedd lawr,
Pwy droiadau o ragluniaeth,
  Wrth ei *ffryns* mae'n ddweyd yn awr ?

Taw, fy ngwenydd gwag rhedegog,
  Pa freuddwydion sy'n dy fryd ?
Dyna 'i waith, ond caru'r Iesu,
  Myfyrio iachawdwriaeth ddrud,

Google

Chwilio'r oesoedd hen aeth heibio,
 Chwilio'r oesoedd eto i dd'od,
Cânu, synu, a rhyfeddu
 Iddo ddyfod yno erioed.

Yn nghwmpeini hen Rees Pritchard,
 Goeliaf, rhowd e' i eiste' lawr,
Gyda Ralph, ac Ebenezer,
 Harvey, Watts, a thyrfa fawr;
Fe gas ddewis ar ei anthem,
 Dyna'r gair ddaeth gynta' i mas,
"'Rwyfi'n synu fil o weithiau
 Ddyfnder gwaredigol ras!"

Ffarwel, enaid cywir ffyddlawn,
 Ffarwel iti ronyn bach,
Cawn dy gwrddyd uwch yr haulwen,
 O'n cystuddiau gyd yn iach;
Ni gawn yn dy gwmni fwyta
 Ffrwythau pren y bywyd pur,
Yfed dwfr fel grisial gloyw
 O ffynonau bywyd hir.

Ni gawn ganu'n gydsain gyson,
 Haeddiant Iesu'n Brenin mawr,
A'r aneirif ddyoddefiadau
 Trymion gafodd ar y llawr;
Ni gawn wledda yn drag'wyddol
 Ar helaethrwydd mawr ei ras,
Heb na phoen, na gwae, na gofid,
 O'r tu mewn nac o'r tu ma's.

GRIFFITH JONES gynt oedd ei enw,
 Enw newydd sy arno'n awr,
Mewn llyth'renau na ddeallir
 Eu 'sgrifenu ar y llawr;
Cân, bydd lawen, aros yna,
 Os yw Duw o entrych ne'
Yn gweled eisiau *prints* a dysgu,
 Fe fyn rywun yn dy le.

Google

### I MADAM BEVAN.

Tithau, bendefiges hawddgar,
   Sydd a'th enw gwych ar led,
Na ch'wilyddia ddwyn yr achos
   'Nawr yn mlaen, yn gadarn cred;
Gyr ysgolion rhad yn union,
   O Lacharn hyd Gaergybi draw,
Nid oes neb o feibion Aaron
   Na rydd iti help eu llaw.

Buost fammaeth i bererin,
   'Rwyt ti'n sicr iawn o gael
Am bob defnyn o ddwfr gloyw
   Roddaist iddo, gyflawn dâl;
Ti chwanegaist at dy goron
   Berlau gwell, y dydd a ddaw,
Nag a gloddir gan yr Indiaid
   Fyth yn ngwlad Golconda draw.

---

## Y PARCH. GEORGE WHITFIELD,

### O GAERLOYW,

*Yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1770, bron yn 56ain mlwydd oed, pedair-ar-ddeg ar hugain o ba rai a dreuliodd yn y weinidogaeth.*

---

Daeth y ce'nfor mawr terfysglyd
Im' a newydd trist anhyfryd,
Llong yn dwyn rhyw air annedwydd
O eithafoedd Lloegr Newydd,
Fod yn Newbury heddyw'n gorwedd,
Wedi gorphen taith o'r diwedd,
Ufudd was, ffyddlona ma's, grasol i'r Iesu,
Whitfield fwyn, lariciddiaf hyny,
Trwy holl Frydain fu'n pregethu!

Newydd yw a barodd i mi
Newid lliw ac ymderfysgu,
Byddin fawr o bob rhyw ofnau
A ruthrasant ar fy nwydau;

Mi ddych'mygais bob rhyw ddrygfyd,
Pla, rhyfeloedd, ac afiechyd;
Argoel daw, ar bob llaw, gystudd, a thrallod,
'Storom fawr, pan fyddo gorfod
Ar y seintiau fyn'd i'w beddrod.

'Nawr 'rwy'n gwel'd cymylau duon,
Yn tywyllu'r nen yn gyson,
Mellt a chenllysg yn gawodydd,
Poethwynt stormus gyda'u gilydd:
Seintiau henaf Duw'n dihengyd,
Yn dorfeydd i dir y bywyd;
Gado o'u hol fechgyn ffol, plantos bwhwmanllyd,
Ag sydd wedi chwyddo'n enbyd
Gan frathiadau'r sarff wenwynllyd.

Nid oes genyf barch i roddi,
Bellach fyth i'r Whitfield hyny,
Ond gwneyd cân, os galla'i, baro
I fyrddiynau gofio am dano;
Fel na annghofier fyth 'mo'i lafur,
Tra fo argraff wasg a phapur,
Ond bod son am ei bo'n dirfawr a'i ludded,
Yma a thraw i'r moroedd enbyd,
Gan y Cymry, 'r Sais, a'r Indiaid.

Er nas gwelai ef ond hyny,
Eto mi gaf swnio 'nghanu,
Ac mi gaf mewn lloches fechan
Wylo Whitfield wrthyf f' hunan;
Yno plediaf ar fy neulin,
Ar alluog Fab y Brenin,
Yn ei le, 'nawr o'r ne', arall i anfon,
O'r un ysbryd cywir, union,
Tra fo fe yn gwisgo'i goron.

Pan bwy'n meddwl am ei wrando,
'Rwy'n dych'mygu mod i yno,
Yn gwel'd ei wedd serchocaf dirion,
Uwch ben miloedd maith o ddynion;
Geiriau'r nef yn llifo i waered
Llosgi gefyn hen gaethiwed,

Dwyfol ras bia'r ma's, fe sy'n teyrnasu;
Mae'r erlidwyr hwythau'n methu
Gwawdio hyfryd wleddoedd Iesu.

Lloegr faith sy'n gorfod addeu
Mai o'r nefoedd oedd ei ddoniau,
Ac fe ŵyr Deheudir Cymru
Fod ei athrawiaethau'n ffynu;
Scotland oer a dystia'n eon
Iddo yno gael ei anfon;
'Werddon sy dywyll ddu, yn addeu'n unfryd,
Iddo arwain, er ei wynfyd,
Rai oddiyno i mewn i'r bywyd.

Gwn fod Huntington yn wylo
Gloyw ddyfroedd wrth ei gofio:
Fod ei *Chaplain*, iengach oedran,
Wedi myn'd i'w wlad ei hunan,
Pan oedd hi yn meddwl blaenu
Arno i'r ardaloedd hyny,
Fel y clywn, aeth i mewn i'r wledd ddiderfyn.
Rhaid i'r *lady* aros gronyn
Yma eto dros y Brenin.

Nid oedd Lloegr fawr yn ddigon,
Teyrnas mae miliynau o ddynion,
Nid oedd Scotland, nid oedd Cymru,
Ddim yn abal ei ddigoni:
Rhaid oedd marchog moroedd mawrion,
Lle mae'r llongau'n teithio'n gyson,
Drwodd draw, heb ddim braw, yn erbyn tònau,
I gael enill rhai eneidiau,
O gadwynau tynon angau.

Prin mae'm hysbryd llesg yn credu,
Gwel y cenfor fyth ond hyny,
Un yn marchog ar ei gefen
Lleied arswyd yr astyllen.
Llong yn cario trysor ynddi
Llawer gwell na mwyn Potofi:
Cenad gref Brenin nef wedi troi ei gefn
Ar ogoniant tir y dwyrain,
A'i berth'nasau, oll yn llawen.

Google

Ac yn myn'd â thrysor durfin,
I ymddifaid y Gorllewin,
Aur ac arian wrth y cannoedd,
Trwy ryw ludded blin a gasglodd,
Ac y'nghoedydd anial Georgia,
Cododd balas i'r Gorucha',
Lle i'r gwan i gael rhan tlodion amddifaid,
Breintiau 'fengyl bur fendigaid,
Fel i'r Cymry, Sais, a'r Indiaid.

Dysg ac ymborth, gwisg yn gryno,
Gafodd torf o dlodion yno,
Rhwng y coedydd caent yn odiaeth
Glywed geiriau'r iechydwriaeth;
Fe fydd miloedd yn bendithio
Enw WHITFIELD fythoedd yno:
Fe oedd dad goreu ga'd, gynta' dosturiodd,
Wrth drueiniaid tywyll ydoedd
Heb oleuni pur y nefoedd.

Hampshire Newydd, ti fu'r ola'
Gwelodd ef cyn myn'd i wledda,
Ac i Newbury daeth angelion
I roi gwys i'r genad ffyddlon;
Yno cauodd y pibellau
Sydd yn dwyn y gwynt i'r ffroenau,
Yno daeth marwol saeth angau dychrynllyd,
Ac a'i dygodd ef yn hyfryd
I ardaloedd tir y bywyd.

Enw WHITFIELD oedd yn gyson
Gynt yn goglais drylliog galon,
Heddyw'n hollol sy'n dolurio
Feddwl fod e' yn yr amdo:
Welir mo'r credadyn hwnw
Nes adg'odiad mawr y meirw;
Mae tan sel, doed a ddel, fyth ni ddihunir,
Nes o'r diwedd yr agorir
Holl lochesau dyfnion natur.

Fe ry' *Newbury* y pryd hyny
Gorff yr addfwyn sant i fynu:

Ac fe'i gwelir yn yr wybr
Megys seren fawr yn eglur :
Planed ddysglaer a fachludodd,
Yn ffurfafen bell y nefoedd,
Goleu clir, 'fengyl bur ga's y tir hyfryd,
Ffordd y teithiodd mewn afiechyd,
I bregethu gair y bywyd.

Mae trafaelu wedi gorphen
'Nawr o Edinburgh i Lundain !
Darfu croesi'r môr i 'Werddon,
Nac i Mounten at y Saeson ;
Ni raid iddo ofni oeredd
Gwyntoedd rhewllyd llym y gogledd,
Ac mae'r daith, ddyrys faith, trosodd i'r India,
Wedi ei throi heddyw'n wledda,
Ar y sypiau grawn a'r manna.

Dyma'r genad bur a dreblodd
Gylch y ddaear o filldiroedd,
Ddygodd hanes pen Calfaria
I fynyddau maith yr India ;
Grym efengyl wen fendigaid,
Draw i'r Negroes ac i'r Indiaid ;
Cymysg lu, gwyn a du, Saeson a Moeris,
Blith dra phlith, yn nefol hapus,
Ddaw i mewn i'r hen freninllys.

Nid oedd perygl a'i brawychai,
Nac o'r moroedd na'r mynyddau,
Fe gai'r llewod ruo'u gwaetha',
Yn anialwch coed yr India,
Ni chai'r arth, y blaidd, na'r teigr,
Laesu ei ffydd na briwio'i hyder,
Tanllwyth dân, oleu lân, ganddo'n fur parod,
Yn y gelltydd maith diddarfod,
Idd ei gadw rhag y llewod.

Er medd ein grasusaf frenin
Bymtheg gwlad yn y gorllewin,
Ymerodraeth mwy'i mesurau,
Na hen Frydain dair o weithiau :

Anial maith, a thir anhyfryd,
Gynt gan mwyaf na feddienid;
Eto efe, ffrynd y ne', WHITFIELD a'i teithiodd,
A'r efengyl a bregethodd,
Er mor arw, anial, ydoedd.

Pensylfania ga'dd ei wrando,
'Nawr mae'i threfydd yn och'neidio,
*Mary-land*, *New York*, *Virginia*,
De a gogledd *Carolina*,
Lloegr Newydd, *Brunswick*, *Jersey*,
Ac aneirif gyda hyny;
Ond tydi, Georgia gu, ydoedd yn gyson,
Yn mhob terfysg a thrallodion,
Fwya'n gwasgu ar ei galon.

Brystau, tywallt ddagrau'n hidl,
Marw'r pena' o wyr dy 'fengyl;
Ni chai glywed fyth ond hyny,
Yn *Old Orchard* fe'n pregethu;
Fyth ni weli ei ddwylo canaid,
Yn dyrchafu i'r nef fendigaid;
Mae e'n nghudd yn y pridd oerllyd yn huno,
Ac nis c'od e fyth oddiyno,
Nes del cherubim i'w ddeffro.

Ac ni weli fyth o'r dagrau
Mwy yn cwympo dros ei ruddiau,
Nis cai wel'd yn eitha'i egni
Yn galw priodasferch Iesu;
Bellach fe wna bleiddiaid rheibus
Yn dy gorlan waith anafus,
'Does ond fe, Brenin ne', 'n unig all helpu,
Ac o'r rhwydau oll dy dynu,
Sydd yr awrhon am dy dd'rysu.

Llundain fawr, tydi gas bena'
Ffrynd y nefoedd i'th fugeilia;
*Tot'nam Court Road*, darfu i ti
Golli'r tadmaeth goreu feddi;
Y Tabernacl sy'n amddifad,
WHITFIELD fwyn a gafodd alwad,

Heddyw llu duwiol sy yno'n och'neidio,
  Defaid bron a myn'd i grwydro,
  A'u hathrawon wedi huno.

  Davies addfwyn gynta' hunodd,
  Yna Adams a'i canlynodd,
  'Nawr fe d'rawyd ar y gwreiddyn,
  Awd a WHITFIELD at y werin;
  Y mae'r bleiddiaid yn cael gwynfyd,
  Fod bugeiliaid yn dihengyd,
Iesu mwyn, at dy ŵyn, tyred yn fuan,
  C'od athrawon dawnus gwiwlan,
  I fugeilio'th anwyl gorlan.

  Colled llai i Ynys Brydain,
  Colli'r India fawr ei hunan,
  Gwell o lawer fuasai iddi
  Fod heb dduciaid nac arglwyddi;
  Gwell pob cystudd, gwell pob aflwydd,
  Na marwolaeth gwas i'r Arglwydd,
Proffwyd Duw, bendith yw dros ben ei gyfri',
  Cerbyd Israel yw 'i broffwydi,
  A'i farchogion duwiol heiny'.

---

# Y PARCH. DANIEL ROWLANDS,

### LLANGEITHO,

*Yr hwn a fu farw ar yr 16eg o Hydref*, 1790, *yn 77 mlwydd oed.*

---

AI rhaid marw'n hen Barchedig
  ROWLANDS, er holl ddoniau'r nef,
Roddwyd megys môr diderfyn
  Yn ei ysbryd bywiog ef?
Oni all'sai gweddiau'r eglwys,
  Gafodd drwyddo nefol ras,
Ddim dros rai blynyddau'n rhagor
  Gadw angau dewr i ma's?

Ai rhaid marw gwr wnai dyrfa
Oerllyd, drom, yn llawn o dân,
Werin fyddar, fud, ddifywyd,
Oll i seinio nefol gân?
Marw un wnai i satan gwympo
Lawr yn swrth o entrych nef;
Ond er hyn, a llawer rhagor,
Angau oedd ei farw ef.

Dyn o'r pridd a wnaed i fynu,
Dyn i'r pridd sy'n myn'd i'w le;
Felly holl drigolion daear,
Ond Tywysog mawr y ne':
Y mae marw'n rhwym wrth eni,
Ac mae gwobr oer y bedd,
Fel 'tifeddiaeth anhebgorol
I'r cadarnaf un ei wedd.

Nid rhaid canu dim am dano,
Nid rhaid *marble* ar ei fedd;
Ofer tynu dim o'i *bictiwr*,
Ar bapyryn sal ei wedd:
Gwnaeth ei farwnad yn ei fywyd,
Rho'dd ei *farble* yn ei le,
Fe 'sgrifenodd arno 'i enw
A llyth'renau pur y ne'.

Y dorf seintiau, fry ac yma,
Y mae arnynt ol ei fys,
Sydd iddo'n gareg-fedd a marwnad,
Ac yn *bictiwr* hardd, fe wy's;
Pan fo ceryg-nadd a phapyr,
Gyda'r byd, yn myn'd yn dân,
Gras y nefoedd ar y rhei'ny
Ddwg ei enw ef yn mla'n.

O bweroedd pur prydyddiaeth,
Sydd yn dwyn adenydd mawr,
Ac yn hofran uwch cymylau
Dwyrain a gorllewin wawr,
Rhowch im' nerth i ddringo fynu,
Ac i olrhain ol ei dra'd,

Google

O'r pryd cododd haul yn Nghymru
Nes ei fyn'd i'r nefol wlad.

Pan oedd tywyll nos drwy Frydain,
Heb un argoel codi gwawr;
A thrwmgwsg oddiwrth yr Arglwydd
Wedi goruwch-guddio'r llawr;
DANIEL chwythodd yn yr udgorn,
Gloyw udgorn Sinai fryn,
Ac fe grynodd creigydd cedyrn,
Wrth yr adsain nerthol hyn.

*Boanerges* oedd ei enw,
Mab y daran danllyd gref,
Sydd yn siglo yn ddychrynllyd
Holl golofnau dae'r a nef:
"Dewch, dihunwch," oedd yr adsain,
"Y mae'n dinas ni ar dân;
Ffowch oddiyma mewn mynydyn,
Ynte ewch yn ulw mân."

Yn *Llangeitho* fe ddechreuodd
Waeddi dystryw'r anwir fyd.
Miloedd ffodd o'r de a'r gogledd,
Yn un dyrfa yno yn nghyd;
Arswyd, syndod, dychryn ddaliodd
Yr holl werin fawr a mân,
Nid oedd gwedd wynebpryd un-gwr
Fel y gwelwyd ef o'r bla'n.

Gliniau'n crynu gan y daran,
Fel pe buasai angau 'i hun,
Wedi cym'ryd llawn berch'nogaeth
Ar y dyrfa bob yr un;
"Beth a wnawn am *safio*'n henaid?"
Oedd yr unrhyw gydsain lef.
Chwi sy am wybod hanes DANIEL,
Dyma fel dechreuodd ef.

Daeth y swn dros fryniau *Dewi*,
Megys fflam yn llosgi llin,
Nes dadseinio creigydd *Towi*,
A hen *Gapel-Ystrad-Ffin*;

Google

Lle daeth siroedd yn finteioedd,
   Werin o aneirif ri',
Wrth gref adsain udgorn gloyw,
   Cenadwri'r nefoedd fry.

Dyma ddyddiau pur gyffelyb
   I rai Sinai hen o'r bla'n,
Llais yr udgorn a llef geiriau,
   Tarth a thymestl, mwg a thân;
Mynydd mawr yn crynu'n danbaid,
   Ac yn chwareu o eigion byd,
Yn datguddio yn erbyn pechod,
   O bob rhyw, anfeidrol lid.

Dyma'r pryd daeth HARRIS fywiog,
   Yn arfogaeth fawr y nef,
Megys taran annyoddefol,
   Yno i'w gyfarfod ef;
Dyma ddyddiau sylfaen gobaith,
   Dyddiau gwewyr llym a phoen,
Wrth gael esgor ar ei meibion,
   Newydd wraig yr addfwyn OEN.

Pump o siroedd penaf Cymru
   Glywodd y taranau mawr,
A chwympasant gan y dychryn
   Megys celaneddau 'lawr;
Clwyfau gaed, a chlwyfau dyfnion,
   Ac fe fethwyd cael iachad,
Nes cael eli o Galfaria,
   Dwyfol ddwr a dwyfol wa'd.

'Nol pregethu'r ddeddf dymestlog
   Rai blynyddau yn y bla'n,
A rhoi llawer yn friwedig,
   'Nawr cyfnewid wnaeth y gân;
Fe gyhoeddodd iachawdwriaeth
   Gyflawn hollol, berffaith, lawn,
Trwy farwolaeth y Messia
   Ar Galfaria un prydnawn.

Grym ei athrawiaethau melus
   Bellach oedd yn meithrin ffydd,

Google

Trwy ddatguddio y Cyfryngwr,
   Sylfaen iachawdwriaeth rydd ;
Dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo
   Wedi prynu â'i ddwyfol wa'd
Holl drysorau nef y nefoedd,
   I gredadyn tlawd yn rhad.

Dyna'r pryd daeth WHITFIELD enwog
   Ar adenydd dwyfol ras,
Lawr i Gymru i gael profi
   Y newydd win o ddwyfol flas ;
Dyma'r pryd yr hyfryd asiwyd,
   O fewn ffwrnes fawr y nef,
Sais a Chymro mewn athrawiaeth
   Loyw, ddysglaer, gadarn, gref.

Pan oedd athrawiaethau cymysg
   Wedi llanw'r wlad yn un,
BAXTER, ARMIN, a PHELAGIUS,
   Yn nghyda holl ddyledswydd dyn:
Y rhai'n a waeddwyd yn eu herbyn,
   Fe'u 'sgymunwyd hwynt i ma's,
Ac fe blanwyd drwy'r eglwysi
   Athrawiaethau dwyfol ras.

Dyna'r pryd, boed cof am dano,
   Ganwyd y gymanfa fawr,
Ag sy haner cant o flwyddau
   Yn cadw i fynu hyd yn awr ;
Yn gwneyd undeb athrawiaethau,
   Ac yn clymu undeb crwn,
Nas gall rhagfarn na drwgdybiau
   Fyth i ddatod dim o hwn.

'Nawr y penaf un ddiangodd,
   ROWLANDS heddyw sy 'n y nef,
Wedi derbyn coron euraidd,
   Hyfryd ffrwyth ei lafur ef:
Talent ddeg a roddwyd iddo,
   Fe'u marchnatodd hwynt yn iawn;
Ac o'r deg fe'u gwnaeth hwy'n ganoedd,
   Cyn machludo'i haul brydnawn.



Digitized by Google

Nid oes un o siroedd Cymru,
   Braidd un plwy' sy'n berchen ered,
Na bu Rowlands yn eu teithio,
   Ar eu hyd ac ar eu lled;
Dros fynyddau, drwy afonydd,
   Ac aberoedd gwaetha' sydd,
O Dyddewi i Lanandr'as,
   O Gaergybi i Gaerdydd.

Deuwch drosodd i Langeitho,
   Gwelwch yno ôl ei law;
Miloedd meithion yno'n dysgwyl,
   Llu oddi yma, llu o draw;
A'r holl dorf yn 'mofyn ymborth,
   Amryw'n dweyd, Pa fodd y cawn?
Pawb yn ffrostio wrth fyn'd adref
   Iddo gael ei wneyd yn llawn.

Gwelwch Daniel yn pregethu
   Yn y tarth, y mwg, a'r tân;
Mil ar unwaith yn molianu,
   Haleluia yw y gân;
Nes ba'i torf o rai annuwiol
   Mewn rhyw syndod dwfn mud,
Ac yn methu rhoi eu meddwl
   Ar un peth ond diwedd byd.

Pan oedd Solomon ffyddlonaf
   Yn cysegu'r deml fawr,
Ac o'r pwlpud pres yn gwaeddi
   I'r shecina ddod i lawr,
Mwg a tharth, arwyddion nefol,
   Lanwodd yr holl dŷ yn glau,
Fel nas gall'sai yr offeiriaid
   Ddim yn mlaen i agosâu.

Felly pan aech i Langeitho,
   Ond cael Daniel wych i'r lan,
Codai haul a llewyrch nefol
   Ar y dyrfa yn y fan;
Geiriau 'hedai megys saethau,
   Ac a ddaliai afael dŷn

Google

Ar galonau oedd yn cysgu,
  Neu yn feirw swrth cyn hyn.

Bywiol oedd ei athrawiaethau,
  Melus fel yr hyfryd win;
Pawb a'u clywai a chwenychai
  Brofi peth o'u nhefol rin;
Pur ddiferion bythol fywyd,
  Ag a roddai iawn iachad
I rai glwyfodd cyfraith Sinai,
  Ac a ddrylliodd dan ei thra'd.

Rowlands neidiodd allan gyntaf,
  A'i le gadwodd ef yn lân,
Ac nis cafodd, er gwisgied,
  Un gwr gynyg cam o'i fla'n;
'Roedd ei ddawn yn enill arnom,
  'Roedd yn cael eisteddle'n llawn,
Yn y gadair ucha' o'r eglwys,
  O'i las foreu i'w brydnawn.

Fe fu rhai yn ceisio dringo
  Fry i'r gadair yr oedd ef,
Ond cwympasant megys Luci-
  Ffer i lawr o uchder nef;
Sandemaniaid balch yn bostio
  Eu goleuni mawr a'u grym,
Chwyddo o wyntoedd fel pledreni,
  Nes i'nt rwygo a myn'd yn ddim.

Ac fe wibiodd amryw ddynion,
  Rhai ar aswy, rhai ar dde',
Ond fe gadwodd arfaeth nefol
  Rowlands gonest yn ei le;
A phwy bynag gyfeiliornai
  O wiw lwybrau dwyfol ras,
Fe ddatguddiai 'u cyfeiliornad,
  Hyd nes gwelai pawb hwy'n gas.

Os deuai *Antitrinitarian*
  A rhyw *beres* front ddisail,
Haeru na fedd Duw Bersonau,
  Cyntaf, Trydydd, nac un Ail;

Google

DANIEL yna safai fynu,
Fel rhyw golofn gadarn gref,
A gwrth'nebai, o flaen canoedd,
Ei athrawiaeth ynfyd ef.

Mae ei holl ddaliadau gloyw
Mewn tair credo gryno glir:
*Athanasius* a *Nicea*,
Yn nghyda'r *apostolaidd* wir;
Hen erthyglau Eglwys Loegr,
Catecist Westminster fawr,
Ond yn bena'r Bibl santaidd,
D'wynodd arnynt oleu wawr.

Ac o'r nentydd gloyw yma,
'Roedd trysorau nefol ras,
Megis afon fawr lifeiriol,
Yn Llangeitho 'n dod i ma's;
Gwaed a dwr, nid dwr yn unig,
Angau a santeiddrwydd drud
T'wysog mawr ein iachawdwriaeth,
Yw'r pregethau sy yno i gyd.

Crist ei hunan ar Galfaria,
'N clirio holl hen lyfrau'r nef,
Ac yn talu 'n llwyr bob hatling
O'r holl ddyled ganddo ef;
Mae'r gwrandawyr oll yn llawen,
Oll yn hyfryd, oll yn llawn,
Wedi bwyta'r bara nefol,
O las foreu hyd brydnawn.

Mae'r torfeydd yn dychwel adref
Mewn rhyw ysbryd llawen fryd,
Wedi taflu lawr eu beichiau,
Oedd yn drymion iawn o hyd;
Y ffyrdd mawr yn frith o'r werin,
Swn caniadau'r nefol O'N,
Nes yw'r creigydd oer a'r cymydd
Yn adseinio'r hyfryd dôn.

Dyma ddyddiau gwerthfawr ROWLANDS,
Ac hwy eto a barhan',

Google

Pan-bo'i gorph yn mynwent Ceitho,
  Wedi myn'd yn ulw mân;
Os ELIAS yn ei gerbyd
  Tanllyd esgyn fry i'r nef,
Fe ddaw ELISEUS yn berchen
  Ar ei fantell nefol ef.

Ac ni dderfydd gras y nefoedd,
  Draethodd ROWLANDS yn ei chwys,
Ddim er gwaethaf dyn na diafol,
  Yn Llangeitho fach ar frys;
Rhaid i'r egin grawn i dyfu,
  A dwyn ffrwythau melus, pur,
Hauwyd gan y ROWLANDS hwnw
  Sy heddyw yn y nefol dir.

Ac er marw'n tad ardderchog,
  Marw ni wna'r 'fengyl bur,
Can's hi estyn ei hadenydd.
  Tra bo llanw môr a thir;
Nid â haul i fan o'r ddaear,
  Ag mae dynion yno'n bod,
Na bydd hi'r efengyl loyw,
  I fanwl ddylyn ol ei dro'd.

Ac nid oedd holl ddyddiau ROWLANDS,
  Er eu bod hwy'n amser hir,
Ddim ond gwawr-ddydd iachawdwriaeth,
  Ar y santaidd nefol dir;
Y mae'r eglwys fawr yn feichiog,
  A hi esgor cyn prydnawn,
Ar bregethwr, megys DANIEL,
  O holl ddoniau'r nef yn llawn.

Ti NATHANIEL, gwas y nefoedd,
  Gwylia ar y gorlan glud,
Gasglodd ROWLANDS, dy dad ffyddlon,
  Trwy ryw orchest fawr yn nghyd;
Uwch mewn dysg, nid llai mewn doniau,
  Saf fel llusern oleu glir,
I helpu ei ddefaid ef i gadw
  Yr union ffordd i'r nefol dir.

Google

Bydd yn dad i'r gymdeithasfa,
  Ac os teimli'th fod yn wan,
Ti gai help gwir efengylwr,
  DAFYDD onest o Langan,
Dodd y ceryg â'i ireidd-dra,
  A thrwy rym efengyl fwyn
Wna i'r derw mwyaf caled
  Blygu'n ystwyth fel y brwyn.
Sefwch fel colofnau cedyrn,
  Chwi gewch help i fyned trwy,
Y LLWYD doeth, a WILLIAMS, Lledrod
  Ac ugeiniau gyda hwy:
Nithiwch y gymanfa bellach,
  A gwegrynwch hi yn lân,
Na bo mwy un cyfeiliornad
  I'w gael yn mhlith y gwenith glan.
Sefwch yn lle HUSS a JEROM,
  CRANMER, RIDLEY, aeth drwy'r tân,
Amddiffynwch bynciau CALFIN,
  Megys DANIEL hen o'r bla'n;
Gofelwch rhag i wirioneddau
  'R Bibl santaidd fyn'd ar goll,
Bywyd, profiad, ac athrawiaeth.
  Heb eu cywir gadw oll.
Mae fy amser i ar ddarfod,
  Mae fy ngalwad bron ar ddod,
'Rwyf mewn carchar gan yr angau,
  Fel yn llechu dan ei dro'd;
Ni cha'i fyn'd i maes o'i loches,
  Yma fymryn bach na thraw,
Ond fy Jubil' mi ddysgwyliaf,
  Dyr fy nghadwyn maes o law.
Eto, er ei lyffetheiriau,
  Sydd yn rhwymo 'ngorph yn nghyd,
Y mae'r nefoedd fawr yn agor,
  Rhwygwyd y cymylau 'gyd;
Mae fy ysbryd yn cartrefu
  Gyda'r dorf aneirif fawr,
O rai cyntaf-anedigion
  Ag sydd yn y nef yn awr.

Google

# Y PARCH. LEWIS LEWIS,

### GWEINIDOG YR EFENGYL,

*Yr hwn a ymadawodd â'r byd ar y Nawfed dydd o Fehefin*, 1764.

---

Ar ddiwrnod mi fyfyriais
  Am ddedwyddwch maith y nef,
Natur cariad y Messiah,
  Harddwch ei briod-ferch ef;
Arfaeth foreu trag'wyddoldeb,
  Ethol etifeddion ffydd,
Concwest Iesu ar Galfaria,
  Hedd y saint, a'r farn a fydd.

Mi fyfyriais nes i'm natur
  Eiddil, egwan, i wanhau,
Nes i'm deall, nes i'm rheswm,
  Fethu eu swyddau a chwblhau;
D'rysodd f' enaid mewn myfyrdod,
  Nofiodd mewn dyfnderoedd mawr,
Fy synwyrau a ddymunodd
  Gael gorphwysfa haner awr.

Yna'm cnawd i a gydsyniodd,
  A phob egwan *nerf* yn nghyd,
I roi nerth i'm holl synwyrau
  Ag oedd wedi blino 'nghyd;
Huno wnes yr hun felusaf,
  Dybiais i, a brofodd dyn,
*Ffansi* yn unig a dychymyg
  Oedd eu hunain yn ddihun.

Hwy grwydrasant gylch oddeutu,
  Weithiau i'r dwyrain, weithiau i'r de,
Weithiau i lawr i ddyfnder daear,
  Weithiau i uchder eitha'r ne';
Fil o weithiau yn gynt na'r cwmwl,
  Fil yn gynt na goleu'r dydd,

Google

Heb un rheswm yn eu *ledio*,
  Hedent yma a thraw yn rhydd.

Dygent im' bob rhyw newyddion,
  Rhai yn serchog, rhai yn gas,
Rhai am anrhaith a wnai Satan,
  Rhai am gonewest nefol ras;
Yn mhlith eraill d'wedwyd wrthyf,
  LEWIS heddyw aeth yn rhydd,
Dacw'r angel yn y wybr,
  'Rwan yn ei arwain sydd.

Yna gwaeddais, Beth yw d' enw?
  Eto nid o'wn yn ddihun,
Ariel, Gabriel, Uzziel ddysglaer,—
  Ateb i mi, angel cun:
Dianc wnaeth y goleu i fynu,
  I derfynau eitha'r nef;
Mi ruddfanais, dacw gyfaill,
  Wela' i mwy mo hono ef.

Pan atebodd llais, dybyg'swn,
  Dystaw main, fel wrth fy nglun,
Neu fe'i hunan, neu ddychymyg,
  Ydoedd ef, nis gwn i p'un;
Taw, holiedydd, ebe'r *phantom*,
  Yna swn ei eiriau clywn,
Yn rhoi dychryn oddi allan,
  Yn rhoi arswyd oddi mewn.

Ond dan grynu mi ofynais,
  Eto methu bod yn hy',
Ofni'r oeddwn bresenoldeb
  Rhyw rai o'r ysbrydion fry.
Ai rhoi *ffarwel* wnest mor fuan?
  Ai ymddangos wnest i ni?
Tros fynudyn rho'wd it' ddoniau,
  Yna d' alw oddi fry?

P'odd diangaist ar y wawrddydd?
  P'odd aeth dy gadwynau'n rhydd
Cyn cael teimlo nerth y gelyn,
  Cyn cael profi gwres y dydd?

Google

Ti adewaist rym y rhyfel
  I rai ynddo oedd o'r bla'n;
Pa sawl blwyddyn raid i minau
  Sefyll y picellau tân?

Ti ymgedwaist rhag y rhwydau
  Ag a wnaeth ein traed ni'n gaeth,
Do, fe'th gariwyd dros y ffosydd
  Cwymp'som ynddynt lawer gwaith;
Grym y gwyntoedd, gwres y tymhor,
  Stormydd ar y bryniau mawr,
Wnaeth i'n crwyn ni'n llyn felynu,
  Wnaeth i'n 'sgwyddau grymu 'lawr.

'Rwyt ti'n canu heddyw'n gyson,
  Yn mhlith lluoedd heb ddim rhif,
A nofiasant dros ddyfnderoedd,
  Dyfnder tonau, dyfnder llif:
O na buasai gras yn cym'ryd
  Y rhai gododd gyda'r dydd,
Tynu'r baich oddiar eu hysgwydd,
  Dadrys eu cadwynau'n rhydd.

Ni che'st ti na'r rhew na'r eira,
  Ni che'st ti na môr na bryn,
Gwynt o d' ochr heb ddim tonau,
  O'r dechreuad hyd yn hyn;
Awel beraidd ar y ddaear,
  Haul yn t'wynu'n hyfryd iawn,
O'r pryd gwawriodd goleu arnat,
  Nes it' orphwys hir brydnawn.

Beth a dd'wedi am danom ninau,
  Sydd a miloedd maith a mwy
O elynion bob diwrnod,
  Oll yn cynyg i ni glwy'?
Chwareu am ein bywyd gwirion
  Y mae uffern fawr a'r byd,
Taenu rhwydau wrth y canoedd,
  Dysgwyl am ein cwymp o hyd.

Curo ddoe a churo heddyw,
  Curo yma, curo draw,



Google

Weithiau amheu, weithiau rhyfyg,
   Anial garw ar bob llaw;
Temtasiynau o bob natur,
   Temtasiynau o bob lliw,
Am ein bywyd bob mynudyn,
   Dyma'r fan yr y'm ni'n byw.

Tithau est heb wybod iddynt
   I'r ardaloedd hyfryd draw,
Gwelais seraph yn dy arwain
   Yn fwyneiddlon yn ei law;
Gwelais lwybr goleu, eglur,
   Ffordd yr oe't ti'n myn'd yn mla'n,
Megis *meteor* a f'ai'n gadael
   Cynffon draw o'i ol o dân.

'Rwyf yn methu, er fy ngoreu,
   Wrth fyfyrio'th wledd yn awr,
Er mai 'wyllys y Goruchaf,
   Peidio eiddigeddu'n fawr
I ti gael drwy lai o dd'rysni
   Fyn'd o'r anial dir i ma's;
Eto rhaid i mi ddystewi,
   Felly hen arfaethodd gras.

AT.—Nid wyf ddedwydd mwy na chwithau,
   Mae'n dedwyddwch ni yn un,
Ewyllys T'wysog mawr ein bywyd
   Yma ac yna sydd gytun;
Mae hen arfaeth ganddo yn ddirgel,
   Fe fyn hono ei chwblhau,
Ac nid oes, mi wn, i'r nefoedd
   Neb sy'n gofyn p'am y mae.

Y mae cherubim ardderchog,
   Y mae seraphim o'u bron,
Oll yn gwel'd, 'nol del i fynu,
   Hardd berffeithrwydd rhanau hon;
Mae pob cangen ynddi'n gydsain,
   Mae pob cymal yn ei le,
Yn cordeddu am eu gilydd,
   Oll i'w ogoneddu E'.

Digitized by Google

Nid oes yma un anturia
Fyth i yngan gair yn llyn,
Pa'm un acw sy fel yna?
Pa'm hyn yma sy fel hyn?
"Clod i'th enw" yw'r caniadau,
Yn drag'wyddol fo'n parhau,
Am fod oll drwy'r ddae'r a'r nefoedd
I'th ogoniant yn cydwau."

Mi ge's ddianc bron mor gynted
Ag y gwelais oleu'r dydd;
Cyn fy siwrneu oriau bychain,
Rhoddwyd fynghadwynau'n rhydd:
Mae yma rai fu ar fynydd Sion
Ddeugain o flynyddau maith,
Gant o weithiau 'n gaeth a rhyddion,
Cyn 'ynt 'nabod pen eu taith.

Chwi sy'n ddedwydd yn y rhyfel,
Minau'n ddedwydd yma'n rhydd;
Chwi mewn tywyll nos yn canu,
Minau'n canu oleu ddydd;
Un yw'r hymn, ac un yw'r anthem,
Canu'r Iachawdwriaeth rad,
'Run yw'r gelyn a orchfygwyd,
'Run yw'r goncwest, 'run yw'r gwa'd.

Dyma'r gwahan, mi orphwysais,
At fy Nuw 'rwyf fi yn nes;
Chwi sy'n poeni ar y tonau,
Yn y gwynt ac yn y gwres:
Dim ond mynud yw'r gwahaniaeth,
Mil o flwyddau gyda chwi,
Prin cyrhaeddant fyth a'u rhifo,
Ond diwrnod gyda ni.

Blaenu mewn i nef y nefoedd
Ddeg o flwyddau at fy Nuw,
Llong o flaen y llall yn *landio*
Fynud fer, yr un peth yw;
Pan fo'r gyntaf wedi credu
Bod hi wedi cael y lan,

Google

Dyma'r olaf dros y tonau,
   Megys hithau yn y fan.

Gras yw'r cwbl sy mewn arfaeth,
   Gras yw'r cwbl yn y nef,
Gras yw'r cwbl ar y ddaear,
   O'i weithredoedd amryw ef;
'Nawr fe faddeu ef i'r lleidr
   Chwarddodd pan yn myn'd i'r pren,
Rai mynudau 'nol cael maddeu
   Fe ga'dd ganu uwch y nen.

Nid yw ugain mlwydd o weithio
   Bwysau ddim yn nheyrnas nef,
Y gwaith, y gras, y dawn, a'r bywyd,
   Ydoedd oll ei eiddo ef;
Eto 'nol y gwaith coronir,
   Er mai haeddiant marwol glwy',
Can's pob gweithred fach a wnelir
   Yma a'u canlynant hwy.

Fe chwanegir eich gogoniant,
   Os yw'ch temtasiynau'n fawr;
Mwy eich awydd, pan y'ch temtir,
   I roi ffarwel glân i'r llawr:
Gweithiwch, gweithiwch, na rwgnechwch,
   Daear eto yw eich lle;
Cerwch Iesu, cenwch hymnau,
   Mae'ch caniadau yn y ne'.

Gof.—Dywed i mi, os yw bosib',
   Ronyn am dy artre'n awr,
Am y swyddau, am y graddau,
   Ac am ddoniau'r nefoedd fawr;
Pa fath iaith sy gan angelion,
   Ai ymddyddan megys dyn?
Neu wrth amnaid, neu wrth awgrym,
   Rho'nt eu meddwl, dywed p'un?

Beth yw'r gwahan rhwng sant a seraph
   Yn ngwasanaeth pur y nef?
Onid angel ydyw enaid
   Hyd nes adgyfodir ef?

Google

Pa negesau wna seraphiaid,
   Pa gynorthwy wnant i ddyn,
Na wna d' enaid di neu arall,
   Gyda phleser, heddyw'r un?

Ar.—Uwch dy ddeall, uwch dy synwyr,
   Yw'r holiadau sy'n dy fryd;
'Mhell uwch cyrhaedd natur ddynol
   Ydyw'r oll mewn nefol fyd:
A phe ceisiwn roi it' wybod,
   Megys cynyg fyddai ef
I roi baban cyn ei eni
   'Ddeall troion ser y nef.

Pa fodd y deall dall am liwiau?
   Pa fodd y gall daearol ddyn
'Nabod natur y seraphiaid,
   Nad yw'n 'nabod mo'no 'i hun?
Nerth, cyflymdra, cariad, doniau,
   Fedd trigolion pur y nef,
Nad ellir cyn yr adgyfodiad
   Fyth egluro o hono ef.

Gor.—A yw'r dyrfa fawr sydd yna
   'Nawr yn gwybod, dywed im',
Yn mha ranau maith o'r ddaear
   Mae'r efengyl yn ei grym?
Ar bwy genedl y mae'r nefoedd
   Yn cyfranu yma a thraw?
Pwy sy'n derbyn ysbryd cariad?
   Pwy sy'n derbyn ysbryd braw?

P'un ai myrdd sy'n tramwy yma
   O ysbrydion pur eu dawn,
Yna dwyn yn ol newyddion,
   Mewn gorfoledd hyfryd iawn?
Neu a ydyw swn ein geiriau,
   Megys gyda'r awel bur,
Yn ehedeg ar adenydd
   Cwmwl i'r santeiddiol dir?

A wyt yn adnabod heddyw
   Yr holl eglwys eang fawr,

Google

'R enwau hyny a ganmolaist
  Mewn pwlpudau ar y llawr;
Abra'm, Isaac, Jacob wrol,
  Fu mewn d'rysni, fu mewn drain,
Mari Magdalen, Manasseh,
  A rhyw filoedd gyda rhai'n?

At.—Yr hyn wy'n wel'd, 'r hyn wy'n deimlo,
  A'r hyn heddyw wy'n fwynhau,
Cadw'th le, a bydd yn ddystaw,
  'Chydig ddyddiau tithau gai;
Nid yw'n perthyn i ti ofyn
  Swyddau seraphim a'u gwaith,
Na pha fodd mae'r nef yn gwybod
  Holl ddirgelion daear chwaith.

'Rwy'n adnabod, mewn ffordd ryfedd,
  Lu o ddynion aeth'o 'mlaen;
Nid wrth lais, ac nid wrth lygad,
  Nid wrth liwiau fel o'r blaen:
Natur sy yma yn dysgu 'nabod,
  Nid y natur sy'n y byd,
Ond rhyw *instinct* fel o wybod,
  Ro'w'd i bawb sydd yma 'gyd.

Gof.—Dywed i mi, gwn y gwyddost,
  P'un ai'r haulwen yn y nef
Sydd yn troi oddeutu'r ddaear,
  Ynte hi o'i ddeutu ef?
P'un ai Ptolomy, neu Newton,
  Neu Copernicus oedd wir?
P'un a dd'rysodd mewn rhesymau?
  P'un a gafodd oleu clir?

At.—Nid yw doniau mawrion Newton
  O fawr gyfrif yn y nef;
Mwy yw'r lleiaf wers o'r Bibl
  Na'i holl lyfrau enwog ef:
Dwyn amseroedd, d'rysu deall,
  Oeru calon, llanw pen,
Y mae'n fynych 'studio natur,
  Mesur troion ser y nen.

Digitized by Google

Gof.—Dywed im' pwy *sect* o ddynion
Yw'r gywiraf is y ne' ?
P'un at ddyddiau'r apostolion
Yw'r agosaf at ei lle ?
Pawb sy'n bostio'r Bibl santaidd,
Dweyd eu bod hwy wrtho 'nglyn,
Bostio crefydd y prif oesoedd,
Minau'n methu gwybod p'un.

At.—Rhanwyd crefydd yn gangenau
Crefydd berffaith ag sydd un,
Cangen yma, cangen acw,
Y corff i gyd gan nemawr ddyn ;
Gwresog iawn yw y rhan fwyaf
Am eu pwnc ac am eu nhod,
Colli'r purdeb, colli'r bywyd,
Colli'r ysbryd cynta' erio'd.

Cais eu hegwyddorion penaf,
Cais eu hysbryd, cais eu rhin ;
Fyth na lyn wrth *sect* nac enw,
Nac wrth eglwys, nac wrth ddyn :
Hed uwch ynfyd ffol gwestiynau,
Uwch rhaniadau sydd yn awr,
At yr ysbryd, at y purdeb,
Ag sydd yn y Bibl mawr.

Gof.—Dywed i mi, 'nawr ti wyddost,
Gwelaist yma ambell bryd,
Ganu, bloeddio, o orfoledd,
Chwerthin, curo dwylaw'n 'nghyd;
D'wed a yw yn boddio'r nefoedd,
Neidio, dawnsio, o lawen fryd,
Pan mae hyny'n dod o gariad
At Iachawdwr mawr y byd ?

At.—Dylyn ol y Bibl santaidd,
Cai'r llythyren o dy fla'n,
Mae ei eiriau, mae ei ysbryd,
Oll yn fywyd, oll yn dân ;
Anhawdd it' fod yn rhy wresog,
Dylyn ol ei gamrau E',

Pan fo gwraidd dy dân yn gariad,
   Pan fo'th ddyben yn ei le.

Gras yw chwerthin, gras yw wylo,
   Grasau ar y ddaear sydd,
Yn mynegu fod rhyw wreiddyn
   Pur, a bywyd yn dy ffydd;
Neidio, dawnsio, moli, canu,
   Ydynt effaith, fel y clywn
Gan astudwyr mawrion natur,
   Cariad gwresog oddi mewn.

Gof.—Beth feddylir wrth y deg-cant
   O flynyddoedd perffaith llawn,
Y caiff satan idd ei rwymo
   Mewn cadwynau tynion iawn?
Pa fath Jubil a fydd hono?
   A pha amser, a pha ddydd,
Y dechreuir ei gadwyno,
   Y gollyngir ef yn rhydd?

At.—Bydd yn llonydd, bydd yn ddystaw,
   'R hwn sy'n credu 'n llonydd sydd,
Cadw 'i enaid mewn amynedd
   Hyd nes gwelo'r boreu ddydd;
Digon it' yr hyn 'sgrifenwyd,
   Na chais 'nabod gronyn mwy;
Dirgel bethau oll o'u chwilio,
   Pechod hollol ydynt hwy.

Ni ro'w'd i ti wybod amser,
   Hyn fe geidw Duw ei hun,
Cyngor Duwdod nis cyfrenir
   Fyth i neb ond Iesu ei hun;
Bydd di barod, dyna'th alwad,
   Ti gai wel'd yr awr a'r pryd
Y cyflawnir pob addewid
   Yn y Bibl mawr yn nghyd.

Gof.—Dywed pa faint ga'dd yr angel
   O'r farwolaeth ar y groes?
Pa ddirgelion maent hwy'n ganfod
   Yn nyfnderoedd angau loes?

Google

Pa berth'nasau rhwng dwy eglwys?
P'un yw'r nesaf at y fainc?
P'un sydd fwyaf cryf ei chariad?
P'un bereiddiaf fydd ei chainc?

Ar.—Pell ac agos nid yw yma,
Llygad cnawd ni wel e Dduw;
Nefol gymun ni ddealli,
Tra f'och ar y ddae'r yn byw:
Un yw'r canu, un yw'r cariad,
Dieiddigedd er ei faint;
Iesu yn unig yw ein gwrthddrych,
Cystal seraphim a saint.

Ti gai wel'd pan ddelych yma
Ryw fyrddiynau maith a mwy
O ddirgelion na ddeallir
Ar y ddae'r mo honynt hwy;
Oll sy'n newydd uwch yr wybren,
Ac ynfydion oe'nt erio'd
A gynygiasant ddirnad trefn
Yr ysbrydion uwch y rhod.

Y mae Watts yn awr yn addef
Mai newyddion sy yma i gyd,
Ac mai rhyfyg ynddo dd'wedodd
Gynt am drefn nefol fyd:
Y mae synwyr Locke a Newton,
Er eu meithder, er eu grym,
A rhesymau manwl Baxter
Heddyw wedi myn'd yn ddim.

Fe gaiff llyfrau, fe gaiff rheswm,
Fe gaiff deall cnawd i gyd,
Oll eu llosgi yn y danllwyth
Fawr ddiwedda'n gryno 'nghyd;
Nid oes dim ond ffydd a bery,
Nid oes arall ddeil y tân;
Ac nid oes ond cariad perffaith
A â drwyddo'n iawn yn mla'n.

Herwydd hyn ni pherthyn i ti
Ddim ond canu ddydd a nos,



Google

Ddim ond canu a bendithio
'Rhwn fu farw ar y gro's;
Syllu, edrych, a myfyrio,
O foreuddydd hyd brydnawn,
A difyru tra fo anadl
Yn yr iachawdwriaeth fawr.

Heb ymholi am ddirgelion,
Pethau fu neu bethau ddaw,
Pethau weli cyn pen nemawr
Oll yn oleu drwyddynt draw,
Dysgwyl am dy waredigaeth,
Dysgwyl am gael myn'd yn rhydd;
Yn y fynud cauo'th lygaid,
Dyna'r fynud gwawria'r dydd.

Mi ddihunais 'nol i'm *ffansi*
Gymdeithasu'n llyn â'r ne',
Yna'm deall a ddychwelodd,
A'm synwyrau idd eu lle:
Eistedd oeddwn dan lwyn *laurel*,
Tra fu hi yn crwydro draw;
Ac er cwsg, y pin 'sgrifenu
Oedd yn chwareu yn fy llaw.

---

## Y PARCH. HOWEL DAVIES,

### SIR BENFRO,

*Yr hwn a fu farw Ionawr* 13, 1770, *yn dair ar ddeg a deugain oed.*

---

Pegy, Pegy, paid ag wylo,
Am dy dirion addfwyn dad,
Dianc wnaeth ef o'r anialwch
Idd ei hen artrefol wlad;
Fe aeth drwy'r Iorddonen ddofn,
Ac mae heddyw'n frenin mawr,
Fath erioed na welodd llygad
Ei gyffelyb ar y llawr.

Google

Ca'dd 'tifeddiaeth, ca'dd drysorau,
  Ac fe gafodd enw mwy
Nag a fedd breninoedd isod,
  Sy'n rheoli'r ddaear drwy;
Nid y llian gwyn na'r sidan,
  Nid yr aur na'r perlau drud,
Ydyw'r gwisgoedd sy am ei enaid
  Heddyw yn y nefol fyd.

Mewn gogoniant mae yn rhodio,
  Ar balmentydd pur y nef,
Megis haul yn ei *ecliptic*,
  Myrdd o angylion gydag ef;
Trwy 'spienddrych ffydd oleudeg
  'Rwy'n ei wel'd yn eglur iawn,
Yn y wlad 'does haul na lleuad,
  Nac un boreu na phrydnawn.

Collaist dad oedd well na thrysor,
  Collaist dad ffyddlona'n fyw,
Nid tydi ga'dd golled fwyaf,
  Mwy a gafodd meibion Duw;
'Rwyf yn clywed saith o filoedd
  Yn och'neidio tua'r nen,
Ac yn dweyd, Beth ddaw o'r gorlan
  Wasgaredig, sy heb ben?

Yn y *Parke* y mae'n bugail
  Gledd yn nghledd ag angau glas,
Ac mae'r frwydr yn arwyddo
  Bydd i angau gario'r ma's;
Gwraidd ei lygaid siriol sychodd,
  Maent hwy'n syllu tua'r lan,
Fel pe baent yn edrych drosodd,
  'Ffordd â'r enaid yn y man.

Y mae'r tafod fu'n pregethu
  Iachawdwriaeth werthfawr ddrud,
'Nawr yn dew, yn floesg, yn sychu,
  Ac fel yn ymgasglu'n nghyd;
*Fflem* a lanwodd y pibellau
  Oedd yn dwyn y gwynt i'r lan,

Google

Ac mae natur hithau'n methu
  Clirio lle i'r anal gwan.

Fe ddiangodd bywyd eisioes,
  Bant o'i draed a'i freichiau'n nghyd,
Ac o fewn cilfachau'r galon
  Mae yn llechu 'n awr i gyd;
Mae yn curo ar y castell
  Ag ergydion diwyd llawn,
Ac fe faeddodd ein pen-bugail
  Ar ddydd Sadwrn y prydnawn.

Y mae'r olwg ar yr angladd
  Wedi'm dodi'n drist fy ngwedd,
Haner Sir i'm tyb sy'n eisiau,
  Pan mae DAVIES yn ei fedd;
Ni alla'i ddim dyoddef edrych
  Arno'n myned dan y don,
Heb fod hiraeth cryf a chariad
  Yn terfysgu dan fy mron.

Gwelwch gwmp'ni ar ol cwmp'ni,
  Yn ugeiniau ar bob llaw,
Oll yn wylo dagrau heilltion,
  Yn ei gwrddyd yma thraw;
Yr *hearse* yn cerdded yn y canol,
  Dyna'r arwydd pena' erio'd,
Ag a welodd gwledydd Penfro,
  Fod rhyw ddrygau mawr i ddod.

Pwy sydd yn y *coffin* pygddu,
  Trwm yn nghanol y fath lu?
Medd trafaelwyr ar y gefnffordd,
  Rhei'ny'n synu hefyd sy;
HOWEL DAVIES ffyddlon gywir,
  Bugail pedair eglwys fawr,
Sydd yn myn'd i fonwent Prengast,
  Heno i orwedd yno i lawr.

Dacw'r *coffin* rhwng y brodyr,
  Yn ei gario idd ei gell,
Ac mae 'i swn yn ngwaelod daear
  Megis swn taranau pell;

Digitized by Google

Y mae'r bobl oll yn wylo,
   Ac fe ddaliodd ysbryd gwan
Feibion Lefi, fel nas gallent
   Ddim llefaru yn y fan.

O na chwympai dawn Elias,
   Yn gawodydd pur i lawr,
Ar ryw Eliseus gonestaf,
   Sydd rhwng cyrn yr arad' fawr;
Fel na chaffo crwydriaid Israel
   Golli hyfryd lwybrau gras,
Ond pob gwr o lwynau Jacob
   Idd ei *ledio* mewn a ma's.

Tyr'd fy awen, hêd i fynu,
   I'r palasau o ddwyfol waith,
Ac i'r ddinas lle mae cariad
   Yn palmantu'r heolydd maith;
Gofyn i'r angelion penaf,
   Sut oedd Salem fawr ei bri
Pan ddaeth mwyn g'wilyddgar DDAVIES
   Gynta' i mewn i'w muriau hi.

Uzziel dysglaer a'm hatebodd,
   'Roedd ei enw yma i lawr
Cyn rhoi sylfaen i'r mynyddoedd,
   O fewn rhol yr arfaeth fawr;
Dau ryw seraph oedd ei wylwyr,
   Clyw a Sirius, loyw sain,
A'i hanesion o'r dechreuad
   Gaem ni glywed gan y rhai'n.

D'wedent i ni fel y teithiodd,
   Pan oedd yn ei iechyd gynt,
Mynwy, Dinbych, a Chaernarfon,
   Môn, Meirionydd, a Sir Fflint;
Fel cyhoeddodd yr efengyl,
   Gydag ysbryd bywiog, rhydd,
O Lanandr'as i Dyddewi,
   O Gaergybi i Gaerdydd.

D'wedent ini fel y chwysodd,
   Fry yn Llundain boblog lawn,

Google

Wrth bregethu gair y deyrnas,
  Weithiau foreu, weithiau nawn;
Bryste, hithau, oer derfysglyd,
  Glywodd swn ei 'fengyl gref;
Môr a thonau, llif a storom,
  Gurodd ganwaith arno ef.

Clywsom fel y gwrthwynebodd
  Ef heresiau diried ryw;
Mellt a tharan oedd ei eiriau,
  I elynion 'fengyl Duw:
Cywir yn ei egwyddorion,
  Syml, gonest yn ei ffydd;
Elusengar yn ei fywyd,
  Llwyr ddefnyddiol yn ei ddydd.

Rhodd ei Arglwydd arno ddyoddef
  Amryw gystudd, amryw boen,
Fel y cai yr unrhyw fedydd
  Ag a gafodd 'r addfwyn Oen;
Rhaid ei buro â chystuddiau,
  Rhaid oedd diffodd pob rhyw flas
Ag oedd ar y cyfan welodd
  Dan yr wybr deneu las.

Penderfynodd nefoedd oleu
  Naill ai dwyn neu guro ei fryd
O bob tegan, o bob gwrthddrych,
  Welodd llygad yn y byd:
Do, fe'i siomwyd ef yn hollol,
  Nid y ddaear oedd ei le;
'Roedd y fainc am gael ei weled
  Yma er's dyddiau yn y ne'.

Dwy o'i wragedd, yn mhlith myrddiwn
  Ddaeth at borth y ddinas bur,
Idd ei roesaw i'r heolydd
  Hyacinth a grisial clir;
'Nawr chwiorydd ydynt iddo,
  A "fy mrawd" y galwant ef;
Nid oes gwreica, nid oes gwra,
  Ddim drwy holl balasau'r nef.

Google

Tyr'd i mewn, medd perffaith seintiau,
  'Rwyt yn awr yn addas wiw
Fod yn nghwmni pur seraphiaid,
  Ac i weled wyneb Duw;
Mae dy delyn aur yn barod,
  Ac mae gwylwyr caerau'r ne'
Wedi dweyd yn awr er's oriau
  Dy fod yn dyfod tua'r lle.

Ac mae'r nablau yma'n chwareu,
  'R *harpsicord*, a *symphon* lawn,
*Dulcimer*, a'r delyn fwyna',
  Yn gynar neithiwyr y prydnawn;
Pawb sy'n gorfoleddu'n gyson,
  Angel, seraph, hefyd saint,
Weled glân etifedd bywyd
  Heddyw'n gwisgo 'i freiniol fraint.

Hyfryd y llefarodd Uzziel!
  Eto hiraeth oedd yn nglŷn,
Mi ruddfanais, ac a dd'wedais,
  Heddyw collais werthfawr ddyn;
Un o gedyrn Israel gwympodd,
  Un cadarnaf oll o'r rhif
A'm gadawodd yn y tonau
  I ymdrechu â'r garw lif.

Edrych ydwyf ar y rhwydau
  Daenwyd yma, daenwyd draw,
Maglau dyrys ar bob cefnffordd,
  Ar bob llwybr, ar bob llaw;
Pob rhyw lwyn, a pherth, a d'rysni,
  Pob rhyw ogof sydd yn llawn
O fwystfilod hyll yr olwg,
  Rheibus, a gwenwynig iawn.

Ac anaml yw'r bugeiliaid
  Sydd yn rhoddi rhybudd [illegible]au,
Pan fo'r arth, y llew, a'r llwynog,
  At y defaid yn nesâu;
Pan fo erchyll gyfeiliornad,
  Tanbaid fel ystorom wynt,

Google

Gyda'u swn yn plygu 'u penau
'R deri cedyrn megys gynt.

F' enaid, taw, fe dry pob chwer'der
  Yn felusder ar ryw ddydd;
Na thristà, ond gorfoledda,
  Wel'd carcharor caeth yn rhydd;
Enaid gafodd wres ac oerni,
  A lewygodd ar ei daith,
Wedi lanio dros yr afon,
  Mewn i dir y gwynfyd maith.

Nid yn ngerddi cryno'r *Parke*,
  Dan och'neidio yma a thraw,
Mae'r offeiriad heddyw'n rhodio,
  Ond yn ngardd Paradwys draw;
Nid y *lemon*, nid yr *orange*,
  *Pomgranad*, na'r *nectarine*,
Ond pur ffrwythau pren y bywyd,
  Mae'n ei ddodi wrth ei fin.

Nid y gwinwydd sy'n rhoi ffrwythau
  I ddiodi cwmni'r nef,
Ond afonydd gloyw'r bywyd
  Heddyw sy'n ei gwpan ef;
Mae yno amrywioldeb eang
  O bob ffrwythau, heb ddim trai,
A phob dim sydd yn eu gwleddoedd
  Sydd fyth fythoedd i barhau.

P'am galara'r Capel Newydd
  Fod eu bugail yn y nef?
P'am bydd tristwch yn teyrnasu
  Am ei fawr lawenydd ef?
Un sy'n llai i'r ddraig i'w demtio,
  O'r rhifedi oedd o'r bla'n;
Fe aeth un i'r lan o'r dyfroedd
  Dyfnion, yn ddiangol lân.

P'am gofidia Wystog addfwyn,
  A'r holl Saeson gyda hwy?
Iesu ei hunan yw y meddyg,
  Fe wna'r *plaster* faint y clwy';

Google

Fe ddaw minteioedd o fugeiliaid,
  Rhai o'r dwyrain, rhai o'r de',
Ac ni chaiff fod eisiau porfa
  Fythoedd ar ei ddefaid E'.

Mi rof heibio'n awr alaru,
  Gwelaf lwydd efengyl bur,
Cod o ludw Huss ryw Luther,
  Concra Rufain cyn bo hir;
Fe gaiff DAVIES sy'n ei wisgoedd
  Euraidd heddyw yn y nef,
Weled broydd penaf Penfro
  Yn ymestyn ato ef.

---

# Y PARCH. WILLIAM DAVIES,

## CASTELLNEDD,

*Yr hwn a fu farw Awst 17, 1787, yn 60ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu yr efengyl am 30 mlynedd.*

P'AM y mae'r medelwyr bywiog
  Yn ffarwelo a'r meusydd ŷd,
Fel pe byddai bro a bryniau
  Wedi eu casglu'n gryno nghyd?
P'am y dianc y rhai gwrol,
  P'am y rho'nt eu harfau i lawr,
Fel pe byddai wedi darfod
  Ddyddiau'r rhyfel yma'n awr?

Pan mae 'redig, hau, a chwynu,
  Medu, cludo'r 'sgubau'n dwr,
Heddyw'n llanw bro a blaenau
  Brydain, a thu draw i'r dwr;
Pan mae rhyfel yn cynyddu,
  Pan mae saethau blin heb ball
O un cwr i'r gwersyll tanbaid
  Yn ehedeg draw i'r llall.

5

Google

De' a Gogledd sydd i'w galw,
   Dwyrain a Gorllewin bell;
Ni bydd cwr o'r ddae'r heb glywed
   Adsain y newyddion gwell:
Rhaid cael gweithwyr i'r cynauaf,
   Mae yn helaeth, mae yn fawr,
Ddalio'r gwres, a ddalio'r lludded,
   Ac heb ddodi clun i lawr.

P'am y tynodd angau diried
   DDAVIES fwyn oddiwrth ei waith?
Pwy sy i gario mlaen ei ystod
   Addfed ar y meusydd maith?
Pwy heb flino, megys yntau,
   Ac heb orphwys, gasgla'n nghyd,
Yn ddiachwyn, yn ddiduchan,
   Feichiau mawrion trymion ŷd?

Y mae'r nefoedd fawr yn trefnu
   Oll fel myno hi ei hun,
Ac nid yw yn gofyn cyngor
   Nac i angel, nac i ddyn;
Pethau dirgel, nid i'w chwilio,
   Ydyw cyngor Duwdod mawr,
Synu, caru, a rhyfeddu,
   Yw dyledswydd llwch y llawr.

Y mae'n drosedd i ni ofyn
   P'am 'raeth DAVIES fwyn i'r nef,
P'am mae'n aros yma lawer
   Llai defnyddiol nag oedd ef:
Dae'r a nef sy wrth amnaid Duwdod,
   Byw a marw sy'n ei law,
Pob dygwyddiad 'gylch y ddaear
   Yw ei drefniad yma thraw.

Dyn na chwilied i ddyfnderoedd
   Dirgel *gwnsel* Tri yn Un,
Myrdd o bethau sy ar y ddaear,
   P'am, wyr neb ond ef ei hun;
Ni all rheswm dall ei ganfod,
   Dim o gamrau'r santaidd dro'd,

Google

Ac ni wèl mo lygad natur
  P'am mae pethau'n llyn yn bod,

'Roedd yr awr, y lle, a'r cystudd,
  A'r cymdeithion oedd yn nghyd,
Pan y t'rawodd angau Davies,
  Wedi 'u trefnu cyn bod byd;
Nid oedd physygwriaeth ddynol,
  Nid oedd meddyg is y nef,
Pe buasent fil o filoedd,
  Yn abl cadw 'i fywyd ef.

Yn ei rym, ac yn ei hoywder,
  Galwyd ffrynd y nef i'r lan:
Trugain mlynedd ar y ddaear
  Drefnodd arfaeth idd ei ran;
Yna rhaid oedd iddo newid
  Ei berth'nasau, ei ffryns, a'i le,
A rhoi ei gorph i'r ddae'r i gadw
  Nes glanhau 'i fudreddi e'.

Castell Nedd, mewn mynwent eang,
  'Roedd rhaid iddo lechu 'lawr,
Lle mae dengmil, neu fyrddiynau,
  Yn ei gwmp'ni ef yn awr;
Ond fe gwyd wrth lais yr angel,
  Bloedd yr udgorn gryna'r byd,
A'i holl lwch, b'le bynag taenir,
  Gesglir yno'n gryno'n nghyd.

Ond ei enaid ef esgynodd
  Yn llaw seraphim i'r lan,
Ac fe gafodd byrth y ddinas
  Yn agored yn y fan;
"Groesaw 'mewn, ti fendigedig,"
  Ebe'r Brenin rodd ei wa'd,
"A pherch'noga'r wlad it' roddwyd,
  Cyn bod daear gan fy Nhad.

"Ti mewn llafur, ti mewn lludded,
  Ti yn eithaf gwres a ga'd;
Swm dy athrawiaethau cywir
  Oedd fy iachawdwriaeth rad:

Google

Buost ffyddlawn, buost ddiwyd,
Buost syml, gonest iawn,
Ni w'radwyddaist fy efengyl,
Foreu'th fywyd na phrydnawn.

"Ti ddyoddefaist pan f'ai gwasgfa,
Ac er clywed 'ro'et yn fud,
Ni ddialaist, ac ni thelaist
Ddrwg am ddrwg i neb o'r byd;
Oen diniwed, dystaw, tyner,
Diddadleugar, a distwr,
Yn mhob terfysg a gwrthryfel,
Y llarieiddaf, mwynaf wr.

"Cariad oedd dy fwyd a'th ddiod,
Serchog oedd dy eiriau gyd,
Dy addfwynder sugnodd ysbryd
Rhai o ocrion blant y byd;
Treuliaist d' amser mewn ffyddlondeb,
Trwy dy yrfa is y nen,
Mae dy goron geny'n nghadw.
Heddyw gwisg hi ar dy ben.

"De'st i mewn i wlad o heddwch
Ga'dd ei sylfaen cyn bod byd,
Perffaith gariad a llawenydd
Sydd yma yn teyrnasu gyd;
Ni ddaw tristwch mud a galar,
Poen nac ofn, nac un wae,
I dy flino, canys heddwch
Sy yma fythol yn parhau.

"Ti gei dreulio tragwyddoldeb
Maith diddiwedd yma'n rhad,
Yfed o ffynonau cariad
Dardd o honof fi a 'Nhad;
Edrych, synu, ar ddyfnderoedd
Dwyfol gariad Tri yn Un,
Drefnodd brynu myrdd myrddiynau,
A dy hunan ydoedd un.

"Mil o weithiau darfu it' ofni
Dy bechodau ffiaidd cas,

Google

Ofni gan eu grym a'u nhifer
  Na chait fyth i gario'r ma's;
Ond fe'i rhwymwyd hwy mewn cadwyn
  Oedd gadarnach na'u holl lid,
Yn yr awr ar ben Calfaria
  Bum i farw dros y byd.

"Swm d' euogrwydd a feddyliaist
  Ganwaith fod yn fwy na'r ne',
Gym'rais arnaf fi fy hunan,
  Ac a delais yn dy le;
Fe foddlonodd nefoedd i mi,
  'Nawr mae 'i phyrth hi nos a dydd
Yn llawn agor i'r rhai hyny
  Rodd fy Ysbryd i yn rhydd.

"Derbyn bellach d' enw newydd,
  Newydd bethau sy yma i gyd,
Fyrdd o weithiau sy'n rhagori
  Ar ddim enwau sy'n y byd;
Merch y Brenin mawr anfeidrol,
  Dde'st fod felly drwy fy nghlwy',
Priodas-ferch T'wysog bywyd
  Fydd dy enw bellach mwy.

"Ti gei aros fil neu ddwyfil
  O flynyddau yn fy hedd,
Cyn im' alw'th gorph i fynu,
  Sydd yn gorwedd yn y bedd;
Ond pan dêl bydd fel yr haulwen,
  Heb un pechod ynddo'n fyw,
Ac fe dderbyn d' enaid canaidd
  Bellach fyth ar ddelw Duw."

Dyma'r modd, medd fy nychymyg,
  Y croesawyd ef i'r nef,
I blith miloedd o rai perffaith
  Ag oedd yn ei 'nabod ef;
Whitfield, Davies fwyn, a Harris,
  A phregethwyr gwresog iawn,
Wedi gorphen ar eu llafur
  Er y cynar hir brydnawn.

Google

Richard Hughes a welodd yno,
   Deithiodd holl fynyddau maith
Arfon arw, a Meirionydd,
   Flint, a Dinbych lawer gwaith;
Ac amgylchodd dir y Deheu
   Gydag awel bur y nef,
Fel dyn addfed i'r wlad nefol,
   'Chydig cyn ei symud ef.

Pecwel* yntau a'i croesawodd,
   Wr ffyddlona' erioed a ga'd,
Newydd fyn'd, a newydd ddysgu
   Pur ganiadau'r nefol wlad;
Wedi gadael Llundain boblog,
   Dengmil ynddi'n athrist iawn,
Heb un gobaith mwy o'i glywed
   Fyth, na boreu na phrydnawn.

Deugain agos o bregethwyr
   Oedd e'n 'nabod yn y nef,
Ac fu'n seinio'r jubil hyfryd
   Yn ei ddyddiau byrion ef,
Oll a'u t'lynau aur yn canu
   Yr un mesur a'r un gàn,
Ag a ganodd y côr nefol
   I'r bugeiliaid gwych o'r bla'n.

Fe gyfarfu â gwragedd serchog,
   Cywir, diwair, fu'n y byd
Yn famaethod pur i'r eglwys,
   Yno yn molianu'n nghyd;
Mrs. Watkins, Pal o'r D'ryslwyn,
   Prisi yn eu plith hwy gaed,
Wedi cànu eu mantelli,
   Fel yr eira, yn y gwaed.

Fy nychymyg sydd yn haeru
   Iddo weled maes o law,
Yn mhlith myrddiwn pur o wragedd,
   Hoff Jane Jones o'r Bala draw,

*H. Pecwel, D.D., Ficar Bloxham, Sir Lincoln.

Google

Wedi derbyn myrdd o wobrau,
  Am y myrdd o seigiau llawn
Rodd hi i'r pregethwyr ffyddlon
  Oedd yn *passo* foreu a nawn.

Chwe chant leia' oedd hi'n fwyda,
  Bob rhyw Gymdeithasfa fawr,
Gwyr a gwragedd, meibion, merched,
  Llanw'r lloft, a llanw'r llawr;
Aeth ei chariad a'i helusen
  Yn finteioedd ar ei hol,
Ac fe gym'rodd y côr nefol
  Hi a hwythau yn eu côl.

Ac mae heddyw yn ffieiddio
  Dim ymddiried dirgel fu
Ganddi ar ei holl haelioni
  I bwrcasu gwobr fry;
Dim ond Iesu sy'n ei meddwl,
  Duw yn dyoddef aeth a'i bryd,
Cariad, heddwch, a llawenydd,
  Sy'n ei llanw'n awr i gyd.

D'wed fy *ffansi* bod hi'n erfyn
  Tros ei phriod sy'n y byd,
Os prioda, i gael mamaeth
  Fo i'r eglwysi'n famaeth glyd;
Addfwyn, isel, ostyngedig,
  Wnelo o'i feddianau'n ffri,
Fel derbyniont hwynt eill deuoedd
  Yno mewn i'r man mae hi.

Fe ga'dd weled yno Abra'm,
  Wr ffyddlona' gaed erio'd,
Isaac, unwaith fu ar yr allor,
  Yn etifedd oedd i fod;
Jacob a orchfygodd angel,
  Joseph fu'n y pydew 'lawr,
Hwy a'u hil grediniol ffyddlon,
  'Nawr o fewn y ddinas fawr.

Fe ga'dd weled mil o filoedd
  O ferthyron c'lonog hy',

Digitized by Google

Aeth drwy ddyoddefiadau mawrion,
  Ar eu taith i'r nefoedd fry;
Maith, amrywiol, oedd eu poenau,
  Concwerasant oll drwy ffydd,
Y maent yno heddyw'n canu,
  Wedi myn'd yn hollol rydd.

Fe ga'dd weled Paul lafurus,
  Lanwodd 'byd â'i 'fengyl bur;
Ioan garodd Iesu'n fwyaf,
  Pan oedd yn yr anial dir;
Fe ga'dd weled Pedr g'lonog,
  Taran annghredinìol rai;
Ac Apolos, pan y plenid
  Efengyl, fyddai'n dyfrhau.

Fe gaidd weled Mrs. Edward,
  O Abermeirig gynhes glyd,
A wnaeth ddefnydd o'i thalentau,
  Hyd yr eithaf, yn y byd;
Am ei rhyfedd garedigrwydd,
  A lletya myrdd o saint,
Yno'n derbyn mawr ogoniant,
  Nad oes neb fynega ei faint.

Ffynon bywyd oedd hi'n yfed,
  Heb ddim tristwch heb ddim poen,
Cariad dwyfol annhraethadwy
  Duw a'r croeshoeliedig Oen;
Treulio deng mil o flynyddau,
  Mawrion meithion gyda ni,
Megys mynud fach yw hyny
  Heddyw yn ei chyfrif hi.

Ac ni chym'rai India'r Dwyrain
  A'r Gorllewin fawr, am dd'od
Yma i'r ddaear, lle mae satan
  A'i bicellau tân yn bod;
Colli'r presenoldeb dwyfol,
  Ddim ond haner mynud awr,
Fyddai'n golled gan yr addfwyn,
  Fwy na cholli'r ddaear fawr.

Google

Ond rhyfeddu'r ydwyf bellach,
  P'odd 'rym ni'n cael aros c'yd
Yn yr anial mae gelynion
  Yn byddino'n dorf yn nghyd;
Myrdd o demtasiynau tanllyd,
  A'r rhai'n beunydd yn parhau,
A phob rhwyd a myrdd o edau,
  Uffern ddwfwn yn eu gwau.

Eto rhaid in' aros gronyn,
  I hela praidd o'u tyllau maes,
Rhaid pysgota'r llynoedd dyfnion,
  Y mae'r rhwydau eto'n llaes;
Mae'n rhaid chwilio â lanterni
  Holl gornelau Cymru lawn,
I gael allan briod Iesu,
  O lochesau dyrys iawn.

Er in' golli DAVIES ffyddlon,
  Cyfyd Duw saith yn ei le,
Ag arweinia gaethion Babel
  Yn finteioedd maith i dre';
Y cloff, y dall, a'r feichiog ofnus,
  Hi sy'n esgor ar unwaith,
Ddylyn troed bugeiliaid c'lonog,
  Trwy'r anialwch dyrys maith.

Mae'r Deheudir fawr yn feichiog,
  Hi gaiff esgor yn y man,
Rhaid bydwragedd, rhaid mamaethod
  I ymgeleddu'r epil gwan;
Pâr y nef i'r ddaear dyfu,
  Rhaid crymanau 'fedi'r ŷd,
Rhaid bugeiliaid gwych i'w gadw,
  Cludwyr da i'w gasglu'n nghyd.

Mae'r athrawon sy'n amgylchu
  Cymru, yn eu rhwysg a'u grym,
Gan y gwres, y chwys, a'r lludded,
  Bron a threulio eu nerth yn ddim;
Rhaid cael bechgyn gwrol bellach,
  Wedi eu gwneyd o loyw bres,

Allo ddyodde'r rhew a'r eira,
Gwyntoedd 'stormus, tarth a gwres.

Mi debygwn 'mod i'n clywed
Pur ganiadau'r addfwyn O'n,
O Plinlimon faith ei sylfaen,
I Gaergybi draw yn Môn;
Y mae adsain fwyn Calfaria
Tros y Wyddfa wen ei brig,
I ni'n tystio nad yw'n Harglwydd
Ddim wrth Wynedd heddyw'n ddig.

Na alerwch mwy am Ddavies,
Ond dihatrwch at eich gwaith,
Y mae'r meusydd mawr yn wynion,
Mae llafurwaith Duw yn faith;
Pob un bellach at ei arfau,
Aml yw talentau'r nef,
Sawl sy'n ffyddlon gaiff ei dalu
Ar ei ganfed ganddo ef.

Doed i wared i'r Deheudir
Ddoniau Gwynedd fel yn lli',
Aed torfeydd o dir y Dehau
Trwy Feirionydd fynu fry;
Fel bo cymysg ddoniau nefol
Yn rhoi'r gwleddoedd yn fwy llawn,
'Falau a photelau llawnion,
O las foreu hyd brydnawn.

'Rwy'n rhoi cynghor byr i'w briod
Gafodd golled uwch ei ffydd,
'Mofyn rhagor o gyfeillach
Pur â'r Iesu mawr bob dydd;
Fyth ni sugna laeth yr eglwys,
Trwy un moddion is y ne',
Ond drwy aros mewn cymundeb
Glân nefolaidd âg efe.

Google

# MRS. GRACE PRICE,

WATFORD, SIR FORGANWG,

*Yr hon a fu farw Tachwedd* 16, 1780, *yn* 37 *mlwydd oed, wedi bod yn briod â Chadben Price am ddeuddeg mlynedd.*

---

WEDI addunedu ganwaith
   Addunedau cedyrn cry';
Na alarwn 'rol neb dynion
   Sydd o fewn y nefoedd fry;
Ond y newydd o Forganwg,
   'Nynodd ynof alar-gân,
Cariad losgodd fy adduned,
   Ac a'i gwnaeth yn ulw mân.

Ni feddyliais i fod cariad
   Y fath gadwyn gadarn gre',
Ag a rwymai ddyfnder daear
   Yn un clwm wrth uwchder ne',
Nes i angau ddod i Watford,
   A dwyn perl oddiyno ma's,
Y ffyddlona' un i'r eglwys
   Eto droediodd daear las.

Watford, Watford, trwm yw'th flinder
   A disymwth daeth dy lo's,
Trow'd dy haf yn ddyfnder gauaf,
   Trow'd dy foreu'n dywyll nos;
Newydd athrist lanwodd glustiau,
   Tanu wnaeth fel môr ar led,
Trwy bob cangen faith o Gymru
   Ag sy'n Iesu'n berchen cred.

Mae'r pregethwyr o bob doniau,
   O bob graddau yn gytun,
Wedi tanu maes y chwedel,
   Ladd o angau nefol ddyn;
Hi adawodd 'r oll a welir
   Mewn tangnefedd pur a hedd,

Ac yn nghapel oer Caerffili
   Rhow'd hi orwedd yn y bedd.

Hi orch'mynodd Price ei phriod,
   Priod ffyddlon iddi erio'd,
I gadwraeth ac i ofal
   Hollalluog ffyddlon Fod;
Ac hi aeth i g'ol y Priod,
   Am ei bywyd roddodd iawn,
Ac a'i cliriodd o'i holl ddyled
   Ar Galfaria un prydnawn.

'Roedd hi'n barod, 'roedd hi'n credu,
   Wrth holiadau dwys eu sail,
Chwilio credu, chwilio eilwaith,
   Chwilio'n gynta', credu'n ail;
Ond pan aeth i lan yr afon,
   Gweled dyfnder maith y dwr,
Daliodd afael gref heb ollwng,
   Mewn iachusol ddwyfol Wr.

Ac nis collodd megis Harvey
   Arno fyth o'i gafael gref,
Ond hi dreiddiodd i'r lan arall
   Wrth ei ystlys gadarn ef;
Yn ei llaw yn ngrym y dyfroedd,
   'Roedd 'spienddrych gloyw clir,
Trwyddo 'roedd hi'n gwel'd yn oleu
   Wastad maith y bywyd dir.

Ac wrth wel'd y wlad mewn golwg,
   Hi ddechreuodd ar ei chân,
Angau'n bygwth, hithau'n swnio
   'R anthem bur o hyd yn mla'n;
Oriau chwech cyn cael yr ergyd
   Canu wnaeth fel hyn i ma's,
Pawb oddeutu'r gwely'n synu,
   A rhyfeddu dwyfol ras.

"O Iachawdwr pechaduriaid,
   Sydd â'r gallu yn dy law,
Hwylia'm henaid," ebe hi, "'n fuan,
   Tros y cefnfor garw draw:

Google

Gâd i'r wawr fod o fy wyneb,
   Rho fy enaid llesg yn rhydd,
Nes i'r haulwen ddysglaer godi
   Tywys fi wrth y seren ddydd."

Oddi rhwng ei ffryns yn wylo,
   Aeth ei henaid pur i'r lan,
Ac angylion yn ei dderbyn,
   Dan eu haden yn y fan;
Yno ei ddwyn trwy faith fyddinoedd
   O gythreuliaid o bob rhyw,
A'i anrhegu'n bwrcas Iesu,
   'N bur o flaen gorseddfainc Duw.

Dwy ar bymtheg mlwydd ar hugain
   Ca'dd hi fyw yn myd y groes,
Wyth o hyny bu hi'n ffyddlon
   I ddyoddef dwyfol loes;
Ac fel un o goed Paradwys,
   Trwy'r holl ddyddiau yma cawn,
Bob rhinweddau ffrwythau bywyd,
   Arni'n pyngo'n beraidd iawn.

Mae fy meddwl 'nawr yn crwydro,
   Weithiau i'r dwyrain, neu i'r de;
'Mofyn WHITFIELD fry yn Llundain,
   WHITFIELD yntau yn y ne';
'Mofyn GRACE PRICE draw yn Watford,
   Cyfaill mwyn heb friw na phoen,
Gyda miliwn wrth yr orsedd
   Wen yn moli'r addfwyn Oen.

Mi freuddwydiais mod yn rhodio
   Neuadd Watford un prydnawn,
(Fe wna breuddwyd India a Lloegr,
   Mon a Mynwy yn agos iawn;)
Ac im' gwrdd ag angau'n siglo,
   Ac yn chwareu ei rymus gledd,
Wedi gyru'r wraig anwyla'
   Lawr oddiyno i waelod bedd.

Mi ofynais pa'm trywanodd
   Un yn anwyl oedd o hyd,

Google

Gan ei phriod, gan ei theulu,
  Gan yr eglwys, gan y byd?
Fod e'n greulon didrugaredd,
  Fyn'd i'r baradwysaidd ardd,
Eglwys Iesu, tori oddiyno,
  Un o'r blodau mwya' hardd.

Lle 'roedd mil, a mil drachefn,
  O rai diffrwyth yn y byd,
Deillion, cloffion, gwywedigion,
  Oedd yn chwyddo'r trethi o hyd;
Meddwon, lleiddiaid, afreolus,
  Neu orthrymwyr, melldith ryw:
Gado rhei'ny wnaethost, angau,
  Lladd y fenyw oreu'n fyw.

Fe'm hatebodd, minau'n crynu,
  Arfaeth barodd hyn yn awr,
Nid wy'n sangu 'stafell wely
  Ond wrth arch y nefoedd fawr;
Weithiau perir i mi dynu
  Maes ar frys fy nghleddyf llym,
Taro'r plentyn heb drugaredd,
  Hed ei ysbryd fry yn chwim.

Ond caiff cant a deg o flwyddau
  Fyn'd tros geryn ambell un,
Er yn groes i bob dysgwyliad,
  Cyn rhoi nghleddyf ynddo 'nglyn:
Ac fe berir im' rai prydiau,
  Er y galar, er y cri,
Daro'r llencyn un ar hugain,
  Ag fo'n dyfod idd ei fri.

Ar ol trefn nef gosodwyd,
  Nid yn fyrach, nid yn hwy,
I ddyn fyw, ac i ddyn farw,
  I gael iechyd, a chael clwy';
Nis gall physigwriaeth ddynol,
  Nis gall meddyg is y nen,
Estyn awr ar fywyd brenin,
  Pan ddel arfaeth nef i ben.

Google

Pan llefarodd angau felly,
  Mi ddihunais o fy hun,
Ac mi welais mai nid addas
  Pwyso dim ar fywyd dyn;
Myn y nefoedd fawr ei hamcan,
  Fe ddwg Duw ei waith i ben,
Pe bai'r diluw 'n soddi'r ddaear,
  Pe bai tân yn llosgi'r nen.

'Rwyf yn teimlo mai oferedd
  Yw'r meddyliau sy'n y byd;
Adeiladu, harddu teiau,
  Casglu cyfoeth mawr yn nghyd;
Caru gwraig a glynu wrthi,
  Ymddifyru yn nhegwch gwedd,
Hono'n dianc mewn mynudyn,
  Arna'i i lawr i waelod bedd.

Ond er hyny y mae hiraeth
  Yn yr eglwys fawr yn nglŷn,
Ond yn benaf fel mae'n addas,
  Yn 'mysgaroedd Price ei hun;
Colli gwraig wnaeth ef, a chymar,
  Ffyddlon iddo pob peth trwy:
Ninnau goll'som fam yn Israel,
  Mamaeth, heb ei bath hi mwy.

Ac am hyn rho'f ffordd i'm doniau,
  Cariad sy'n fy ngyru 'mla'n,
Fel bwy'n canu mwy 'rwy'n wylo,
  Fel bwy'n wylo mwy yw'r tân;
Trech yw'r cariad nag y diffodd,
  Nid oes fflam i gael mor gref,
A chredadyn ar y ddaear
  At ei gyfaill yn y nef.

Canu 'rwyf i'r wraig lareiddiaf,
  Garedicaf un erio'd,
Ag a welodd bro Morganwg,
  Er ca'dd bro Morganwg fod;
Y mae hiraeth trwy fy nghalon,
  Prin 'rwy'n credu mai gwir yw.

Google

Iddi fyn'd o Watford allan,
  Bod hi yn Watford eto'n fyw.

Mi ddych'mygaf bod hi'r awr hon,
  'R hyd y gerddi wrth fy nglun,
Megis Jones, yn dangos llysiau,
  A dweyd enwau pob yr un;
Ysbrydoli pob blodeuyn,
  Wrth ei liw ac wrth ei flas,
Nes gwneyd gardd heb wybod i mi,
  Yn blanhigion dwyfol ras.

Dyma'r *pinc*, a thraw'r *carnasiwn*,
  Dyma'r *tulip* hardd ei liw,
On'd yw rhai'n (fy mrawd) yn debyg
  I rasusau nefoedd Duw?
Dacw'r lili beraroglaidd,
  On'd yw hona megys gras:
Sydd yn perarogli'r ardal
  Ddedwydd hono tyr ef ma's?

Mi debyga'i bod hi'n darllen,
  A chrynhoi fy llyfrau 'nghyd,
Ac yn nodi'r hymnau hyny
  Ag oedd fwya'n myn'd a'i bryd;
Neu ynte'n dangos hen bregethau,
  A'r dalenau hyny ca's,
Wrth eu darllen, oleu'r nefoedd,
  A rhyw ddwyfol nefol flas.

Mi debygaf, o flaen canoedd,
  Mod i'n mhwlpud mawr y Gro's,
Yn pregethu, gyda'r awel,
  Heb arwyddo dim o'r nos;
Grace yn eistedd ar fy neheu,
  Ac yn drachtio dyfroedd byw,
Ag o'wn i yn tywallt allan,
  Wedi eu cael dan orsedd Duw.

Mi debygaf bod hi'n dangos
  Addurn amryw liw a llun,
Cauadlen weithiodd hi yn wyryf
  A'i nodwyddau bach ei hun;

Google

Gwely i'r pregethwyr orwedd,
  'Nol eu chwys a'u taith o bell:
Dychymyg yw, nid yw hi yma,
  Mae mewn cwmni lawer gwell.

Mae'n rhaid credu iddi farw,
  Ond mae f' ysbryd gwan yn un,
Gyda PRICE yn cyd-alaru,
  PRICE ymddifad wrtho ei hun;
'Dyw hi ddim o fewn y gegin,
  Nid oes heddyw swn ei thra'd,
Yn yr hâl nac yn y parlwr,
  Mae o fewn y nefol wlad.

Gyda Cenic, Watts, a Harvey,
  Whitfield, Luther fawr ei fri,
Jerom, Cranmer, Hus, a Philpot,
  A merthyron nefol lu;
Myrdd o wragedd ddiangasant,
  Trwy ddyfnderoedd dw'r a thân,
Oll o flaen y fainc yn canu
  'R baradwysaidd nefol gân.

Mae pob dyn yn mhalas Watford.
  'Nawr yn rhoi och'neidiau trwm,
Mae calonau pawb o'r teulu
  Fel yr eira, fel y plwm:
Mae'r adeilad hardd fu ynddo,
  Pob creadur yn gytun,
Yn cyd-riddfan ac och'neidio,
  Hyd nod *parot* bach ei hun.

Yn y capel, tan yr allor,
  Mae ei chorph mewn melus hûn,
Yno'n llonydd, 'dyw hi'n clywed,
  'Teimlo, nac yn gweled dyn;
'Does na chylch, na thwrf, na therfysg,
  Rhyfel, gwaedd, na daear-gryn,
Dim ond udgorn yr arch-angel,
  All ei dodi ar ddihun.

Hi ddaw fynu gyda'r werin
  Ddysglaer, berffaith, ddwyfol wiw,
Pwrcas gwerthfawr pen Calfaria,
  Priodas-ferch lân fy Nuw;
Lawr o'r nef esgyna ei henaid,
  Obry i waelod dwfn fedd,
Yna yn un mewn mawr lawenydd,
  Ant i'r briodasol wledd.

A phe c'nygid iddi heddyw,
  Fynydd eang yn Peru,
Am roi tro i neuadd Watford,
  At ei hanwyl eto i fyw;
Pan o ffynon bywyd unwaith,
  Yn y nefoedd yfodd GRACE,
Nis gall dim a welodd llygad,
  Ar y ddae'r roi iddi flas.

Nid rhyw angladd oedd yn Watford,
  Pan aeth gwraig rinweddol wiw,
I Gaerffili i gael ei chladdu,
  Ar ol golwg dynolryw;
Ond priodas oedd ei hangladd,
  Gwely priodas oedd ei bedd,
Er na welai pawb o honynt,
  'Roedd angylion yn y wledd.

'Roedd seraphiaid yno'n gweini
  Pan y rhow'd ei chorph i lawr,
A'r Messia ei hun yn gwenu,
  Ar yr orsedd eang fawr;
Cherubim yn canu hymnau,
  Tramwy mawr o'r ddae'r i'r nef,
A gorfoledd gan gerubiaid,
  Ddianc bant o'r byd i dref.

Hi ymborthodd ar y manna,
  O fan i fan yn hyfryd iawn:
Yma'r boreu o'r ffynon loyw,
  O'r winwydden draw brydnawn;

Google

Yn Llangan o dan y pwlpud,
'Roedd ei hysbryd, 'roedd ei thref,
Tra fai Dafydd yno'n chwareu
'N beraidd ar delynau'r nef.

Iesu'r testun, Iesu'r bregeth,
Iesu'r ddeddf, a Iesu'r ffydd,
Meddai JONES, a hithau'n ateb,
Felly mae, ac felly bydd!
Ac mae heddyw'n profi'r geiriau,
Ac yn dweyd, gwirionedd yw;
Nid oes dim dâl son am dano,
Ond Iachawdwr dynolryw.

O NATHANIEL, ffrynd y nefoedd,
Ffrynd yr eglwys fawr bob un,
Tithau gollaist, er dy alar,
O'th gariadau'r penaf ddyn;
Yfodd d' eiriau gyda phleser,
Bwyt'odd hwynt fel manna pur,
Ac a brofodd yn ei bywyd,
Bod dy athrawiaethau'n wir.

PRICE yr ynad, ti ge'st golled,
Rwymodd *asthma* ar dy 'stol,
Aeth dy ferch i ganol nefoedd,
Fe'th adawyd dithau 'nol;
Aros ronyn, trwy amynedd,
Yn y dyrys anial dir,
Ti gai gyda gwraig y cadben,
Ganu anthem cyn bo hir.

Mi wna 'ngoreu ar fod ei henw
'N swnio'n beraidd iawn i ma's,
Lawn mor belled ag mae Cymro,
'N berchen dwyfol nefol ras;
Fe gaiff Mon, a Fflint, ac Arfon,
Penfro, wybod mai gwir yw,
I Forganwg glodfawr esgor
Ar gredadyn uwcha' ei ryw.

Google

WILLIAM WILLIAMS wnaeth y gwersi,
'R oedd yn ei charu'n fawr,
Ddechreu'r nos mewn fflam o hiraeth
Rho'dd ei bin 'sgrifenu lawr;
Ni orphwysodd ef ond rhedeg
Yn ddiaros yn y bla'n,
Nes oedd tri o'r gloch y boreu
Yn gwneyd terfyn ar y gân.

15 AU 56

ABERTAWY: ARGRAFFWYD GAN ROSSER A WILLIAMS, HEOL FAWR.

Google